
# Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd 6)



See all updates

Cynllun grant sydd â'r nod o greu, adfer a gwella coetiroedd yng Nghymru, fel rhan o Fenter Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 22 Awst 2025.

## Pwysig

Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd 6) yn derbyn ceisiadau bellach.

Gweld pa ariannu sydd ar gael gennym.

## Ai hon yw'r rhaglen iawn i chi?

- Ydych chi’n dirfeddiannwr a/neu â rheolaeth lwyr dros dir yng Nghymru?
- Ydych chi'n edrych i wella, rheoli neu ehangu  coetiroedd?
- A all eich prosiect hyrwyddo cyfranogiad cymunedol? Er enghraifft, trwy gynllunio a darparu llwybrau troed, llwybrau natur, neu gyfleoedd gwirfoddoli?
- A oes angen grant rhwng £10,000 a £250,000 arnoch?

Os gwnaethoch chi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau hyn, yna mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) yn addas i chi.

# Trosolwg

Mae'r angen i gynorthwyo adferiad byd natur yn fater brys. Ni fu gofalu am fyd natur a helpu pobl i ddeall ei bwysigrwydd erioed mor berthnasol.

Mae’r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) yn rhaglen i dirfeddianwyr greu coetiroedd i gymunedau lleol eu defnyddio a’u mwynhau, **fel rhan o'r fenter Coedwig Genedlaethol i Gymru**.

## Beth yw'r Goedwig Genedlaethol i Gymru?

Menter a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw'r Goedwig Genedlaethol i Gymru. Bydd yn creu rhwydwaith o goetiroedd a choedwigoedd ar draws Cymru, o dan reolaeth ansawdd uchel.

Bydd y Goedwig Genedlaethol yn ymestyn ar hyd a lled Cymru, fel y gall pawb gael mynediad iddi ble bynnag y maent yn byw. Mae'n cynnwys ardaloedd trefol a gwledig ac yn darparu ystod o fanteision i’r amgylchedd, yr economi a chymdeithas:

- gan chwarae rhan bwysig wrth warchod natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth
- cynyddu cynhyrchiant pren a dyfir yn lleol – galluogi’r diwydiant coedwigaeth lleol i ffynnu, creu swyddi a lleihau’r ddibyniaeth ar bren wedi’i fewnforio
- cefnogi iechyd a lles cymunedau – enghraifft fyw o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Pethau y mae angen i chi eu gwybod

- **Yn gyntaf mae'n rhaid cyflwyno** Ymholiad Prosiect. Efallai y cewch eich gwahodd wedyn i wneud cais llawn.
- Derbynnir un cais TWIG yn unig gan bob sefydliad yn y rownd hon.
- Rhaid **peidio** â dechrau ar eich prosiect cyn i ni wneud penderfyniad.
- Rydym yn darparu llawer o arweiniad arfer da. Gallwch ddarllen yr arweiniad sy'n berthnasol i chi i'ch helpu i ddatblygu a rheoli eich prosiect.
- Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich cais am grant.

## Gweminar

Byddwn yn cynnal gweminar ar gyfer Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd chwech) **ddydd Iau 15 Mai 10am–11:30am**.

Cadwch eich lle yma

## Yr hyn y mae TWIG yn ei ariannu

Mae TWIG ar gyfer tirfeddianwyr a/neu'r rhai sydd â rheolaeth lwyr dros dir. Bydd eich grant yn cael ei ddefnyddio i wella ac ehangu coetiroedd presennol a rhaid iddo fod â'r potensial i ddod yn rhan o Goedwig Genedlaethol i Gymru (mae mwy o wybodaeth am hyn o dan Sut rydym yn asesu eich cais).

Rhaid i'r coetiroedd hyn:

- wedi'u rheoli'n dda
- bod yn hygyrch
- rhoi cyfle i gymunedau lleol gymryd rhan

Mae'r cynllun yn cynnig:

- grantiau rhwng £10,000 a £250,000
- ariannu hyd at 100%
- hyd at ddwy flynedd i gyflwyno'r prosiect
- ariannu cyfalaf a refeniw
- gall prosiectau mawr, uchelgeisiol a chymhleth ddefnyddio ariannu gan TWIG gyda grantiau eraill Llywodraeth Cymru, yn ogystal â ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus a phreifat ategol
- un cais TWIG yn unig gan bob sefydliad yn y rownd hon
- cymorth gan swyddogion cyswllt Coedwig Genedlaethol i Gymru ynghylch y rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru a sut i ddangos y canlyniadau

Mae TWIG yn ariannu prosiectau sy'n:

- adfer ac yn gwella coetiroedd yn unol â deilliannau Coedwig Genedlaethol i Gymru
- Cyflwyno coetiroedd hygyrch i bawb eu mwynhau
- Diwallu anghenion pobl leol fel gofod cyhoeddus, gan gyfrannu at wasanaethau ecosystem yn yr ardal leol. Er enghraifft, ymdrin â cholli bioamrywiaeth a chreu swyddi lleol.
- Dangos manteision lluosog gan rychwantu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol
- Cefnogi lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- Cefnogi twristiaeth a'r economi
- Cefnogi neu gyflwyno sgiliau a hyfforddiant
- Ystyriwch arweiniad Safon Coedwigaeth y DU a Map Cyfleoedd Coetir 2025 i nodi ardaloedd sensitifrwydd isel ar gyfer plannu coed rhwng 0.1 a 2 hectar

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn prosiectau:

- sy'n ceisio gwneud coetiroedd anhygyrch yn fwy cynhwysol a hygyrch i bobl
- a fydd yn galluogi rhwydweithiau natur cysylltiedig ar hyd a lled Cymru
- sy'n cynnwys ardaloedd bach o blannu coed risg isel

Bydd plannu newydd o hyd at 2 hectar  yn cael ei gefnogi o dan y rhaglen TWIG.  Os ydych yn plannu coed, gellir cynnwys un taliad ar gyfer tair blynedd o gynnal a chadw yn eich cais am grant. I hawlio'r arian hwn, bydd gofyn i chi gyflwyno Cynllun Rheoli Coetir manwl ar gyfer y safle ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau (mae mwy o wybodaeth o dan Beth sy'n digwydd ar ôl eich prosiect).

Gallai plannu newydd gynnwys:

- ehangu coetir presennol
- plannu coed trefol
- coridor o wrychoedd neu goedwigoedd i gysylltu dau goetir presennol
- prosiectau plannu cymhleth, uchelgeisiol sy'n ymestyn dros ddwy flynedd (ar y cyd â grantiau eraill – darllenwch fwy am Grantiau Creu Coetiroedd Llywodraeth Cymru yma)

Darllenwch fwy am blannu newydd ac ehangu coetiroedd o dan Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais.

Gallai gwelliannau i goetiroedd presennol gynnwys:

- mabwysiadu coetir gan y gymuned leol
- creu neu wella cyfranogiad cymunedol mewn coetir, a mynediad ato
- teneuo
- gosod llwybrau troed
- cynnal a chadw cyfleusterau mynediad dirywiedig mewn coetiroedd cymunedol a ddefnyddir yn helaeth
- clirio i wneud ardal yn hygyrch

Mae angen Cynlluniau Rheoli Coetir ar gyfer pob prosiect. Os nad yw'r rhain eisoes yn eu lle, gall y grant dalu costau paratoi cynllun rheoli hirdymor manwl (mae mwy o wybodaeth am hyn o dan Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais).

### Iaith Gymraeg a chydnabyddiaeth

Rhaid i chi gynnwys y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith. Dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Gwnewch yn si?r bod cyfieithu wedi'u cynnwys yn eich cynllun prosiect a chyllideb eich prosiect o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau prosiect y cais.

Am ragor o wybodaeth gweler ein Harweiniad prosiect dwyieithog yng Nghymru.

Ariennir y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) ar y cyd gan Raglen Coedwig Genedlaethol i Gymru Llywodraeth Cymru  a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd angen i chi gydnabod eich grant fel y nodir yn ein harweiniad ar sut i gydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru.

## Pwy all ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i unrhyw dirfeddianwyr/rheolwyr gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw a pherchnogion preifat. Mae hyn ar yr amod bod gennych y caniatadau a'r trwyddedau cywir yn eu lle i ymgymryd â gweithgarwch.

# Pa gostau allwch chi wneud cais amdanynt?

Mae'r gronfa hon yn bennaf ar gyfer gwaith cyfalaf. Gellir neilltuo uchafswm o 25% o bob grant ar gyfer gwariant refeniw. Ar ben hynny, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio'r prosiect a chostau gweithredu prosiect uniongyrchol eraill.

Mae'n bwysig i chi nodi pa rai o gostau eich prosiect sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Gall ceisiadau gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

## Costau cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw arian sy'n cael ei wario ar fuddsoddi a phethau a fydd yn creu twf yn y dyfodol. Rhoddir enghreifftiau o gostau cyfalaf derbyniol isod. Sylwer **nad rhestr derfynol mo hon** ac y bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried ar sail yr achos unigol:

- prynu coed, llwyni a phlanhigion eraill i greu, ehangu neu wella ardaloedd o goetir
- paratoi safle, pethau fel arolygon, gosod ffensys, clirio sbwriel a dileu rhywogaethau anfrodorol ymledol
- adeiladu llwybrau a gatiau hygyrch gydag ymrwymiad i’w cadw ar agor i’r cyhoedd a’u cynnal am o leiaf 20 mlynedd, os nad am gyfnod amhenodol
- creu llwybrau natur/addysgiadol
- creu gofodau ar gyfer hamdden a chwarae
- creu gofodau i gynnal a gweld byd natur
- cost llafur sy'n gysylltiedig â gwella a/neu greu'r ardal o goetir
- arwyddion a dehongli
- meinciau/seddi
- toiledau compostio (dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am doiledau compostio gysylltu â CNC am ragor o gyngor gan fod angen trwyddedau yn aml)
- raciau beiciau
- offer/cyfarpar ar raddfa fach i'w defnyddio gan aelodau o'r gymuned leol
- gwaith a arweinir gan gontractwyr sy'n gofyn am offer mwy neu sgiliau arbenigol
- storfa ddiogel ar gyfer offer, cyfarpar ac eitemau eraill i gynorthwyo cyfranogiad cymunedol yn y coetir
- rheoli clefyd gwywiad yr onnen, lle mae gwaith yn hanfodol ar gyfer diogelwch y cyhoedd. Dim ond rhan fach o brosiect mwy y dylai hwn fod ac os nad yw'n ofyniad cyfreithiol ar berchennog y tir i ymgymryd ag ef.
- cyflwyno'r prosiect (er enghraifft, cynllunio prosiect, caffael deunyddiau, rheolaeth ariannol y prosiect) nad yw’n fwy na 10% o’r elfen gyfalaf
- darpariaeth Gymraeg, megis costau cyfieithu
- costau hyrwyddo’r coetir i’r gymuned ehangach, megis argraffu taflenni
- llwybrau (dim ond os oes tystiolaeth glir bod angen mynediad ar y cyhoedd)
- ffyrdd (dim ond os oes tystiolaeth glir bod angen mynediad ar y cyhoedd)

- maes parcio (dim ond os oes tystiolaeth glir bod angen mynediad ar y cyhoedd)

Ar gyfer llwybrau, ffyrdd a meysydd parcio, bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r coetir yn gyntaf, megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Rhaid i chi eu diystyru gan roi rhesymau priodol. Bydd cael tystiolaeth ategol gan gymunedau/grwpiau lleol o'u hangen am y gwaith hwn yn helpu gyda'ch cais.

## Costau refeniw

Gellir dosbarthu hyd at 25% o werth eich grant fel arian refeniw. Gall arian refeniw helpu gyda chost gyffredinol rhedeg y prosiect. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â phobl a chymunedau yn cyflwyno'r prosiect.

Gellir defnyddio arian refeniw ar gyfer:

- Gwasanaethau cyngor/ymgynghoriaeth arbenigol. Er enghraifft, ar gyfer paratoi Cynllun Rheoli Coedwig hirdymor dros 15-20 mlynedd.
- Digwyddiadau i hyrwyddo'r cynllun coetir i'r gymuned ehangach, a dathlu cyflawniadau'r gymuned
- Oriau ychwanegol ar gyfer cydlynydd gwirfoddolwyr presennol i recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r coetir
- Arfer da a threuliau gwirfoddoli (yn unol ag Arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- Gweithgarwch hyrwyddo'r prosiect
- Adennill costau llawn (ar gyfer sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn unig)

## Costau anghymwys

Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o gostau **nad ydynt yn gymwys** ar gyfer TWIG. Noder nad rhestr derfynol mo hon ac y bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried ar sail yr achos unigol:

- prynu tir
- cost lesio tir
- prynu adeiladau
- prosiectau sy'n ymwneud â dileu/rheoli gwywiad yr onnen yn unig
- ailstocio coed ar safle lle mae coed wedi cael eu cwympo
- gwaith yr ydych yn gyfreithiol gyfrifol am ymgymryd ag ef
- unrhyw waith ffisegol a wneir ar y safle cyn i'r prosiect awdurdodedig ddechrau
- prynu cerbydau
- eich costau llafur ac offer eich hun (ac eithrio trwy Adennill Costau Llawn)
- prynu peiriannau ac offer ar raddfa ganolig/fawr. Fodd bynnag, **gellir contractio i mewn** unrhyw waith sydd angen offer canolig/mwy a/neu sgiliau arbenigol (h.y. ddim at ddefnydd gwirfoddolwyr lleol) a'i ariannu drwy'r cynllun hwn.
- cyfarpar swyddfa a dodrefn gyffredinol

**Rhaid** i chi lawrlwytho a chwblhau ein templed costau a chyflwyno hwn gyda'ch cais.

# Terfynau amser ymgeisio a dyddiadau allweddol

Mae'r Ymholiad Prosiect yn gam gorfodol cyn symud ymlaen at gais TWIG (rownd 6) llawn.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

- **Terfyn amser yr Ymholiad Prosiect:** 12 hanner dydd ar 27 Mai 2025
- **Terfyn amser ymgeisio:** 12 hanner dydd ar 19 Awst 2025
- **Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud:** tua diwedd mis Hydref 2025
- **Dyddiad cwblhau eich prosiect:** 31 Rhagfyr 2027

# Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais

Dylai **pob ymgeisydd** gysylltu â Swyddog Cyswllt Coetir eu rhanbarth am gyngor oherwydd bod prosiectau'n cael eu hariannu drwy raglen y Goedwig Genedlaethol ac felly mae'n rhaid iddynt fodloni deilliannau'r Goedwig Genedlaethol i Gymru. Rhaid i chi hefyd ddod o hyd i'r caniatadau angenrheidiol gan yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), neu gyrff eraill – fel Cadw – cyn cyflwyno cais.

Os nad oes gennych eich holl ganiatadau yn eu lle, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais am y caniatadau perthnasol.

Dim ond ar ôl i bob caniatâd gael ei roi y caiff ariannu ei ryddhau, a **gellir diddymu grantiau os na dderbynnir y rhain o fewn chwe mis ar ôl ddyfarnu'r grant**.

### Ehangu Coetiroedd

Rydym yn eich annog i blannu coed risg isel, ar raddfa fach o hyd at 2 hectar fel rhan o'ch prosiect. Dylech ystyried arweiniad Safon Coedwigaeth y DU a Map Cyfleoedd Coetir 2025 i nodi ardaloedd sensitifrwydd isel y gallech eu cynnwys yn eich cais TWIG ar gyfer plannu coed rhwng 0.1 a 2 hectar.

Noder bod y map hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Grant Creu Coetir Grantiau Bach Llywodraeth Cymru, nid oes angen i chi wneud cais ar wahân i'r Grant Creu Coetiroedd Grantiau Bach i ariannu rhwng 0.1 a 2 hectar o blannu, oherwydd y gallwch gynnwys hyn yn eich cais TWIG.

Bydd angen i bob prosiect sy'n ymwneud â **chreu coetir o fwy na dau hectar**, neu lai na 2 hectar ond ddim mewn ardal sensitifrwydd isel, wneud cais i Gynllun Cynllunio Creu Coetir Llywodraeth Cymru **cyn** gwneud cais am arian grant TWIG.

Mae'r cynllun yn cynnig grantiau rhwng £1,000 a £5,000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd, y gellir eu defnyddio i wneud cais am hyd at bum mlynedd o ariannu gan Lywodraeth Cymru.

### Cynlluniau Rheoli Coetir

**Bydd angen Cynllun Rheoli Coetir (CRhC) ar bob prosiect** cyn cwblhau'r prosiect, sy’n sicrhau bod:

- coetiroedd yn cael eu rheoli'n unol ag egwyddorion Safon Coedwigaeth y DU
- coetiroedd yn dangos bod meini prawf hanfodol y Goedwig Genedlaethol yn cael eu cyflawni, sef 'coetiroedd cydnerth o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda’

Os oes gennych Gynllun Rheoli Coetir yn barod, dylech gyflwyno hwn fel rhan o'ch cais.

Os nad oes gennych Gynllun Rheoli Coetir yn barod, dylech gynnwys y costau i ddatblygu un yn eich cais. Bydd angen i chi anfon hwn atom cyn i'r prosiect ddod i ben.

### Asesiadau o'r effaith amgylcheddol

Cyn i chi wneud cais, **rhaid i chi ystyried** a oes angen asesiad o effaith amgylcheddol (AEA) ar gyfer eich cynigion. Dangoswch eich bod wedi gwirio'r meini prawf perthnasol ac nad yw'r cynigion yn dod o fewn y mathau penodedig hynny sy'n ofynnol ar gyfer AEA. Os oes angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol, dywedwch wrthym beth yw’r canlyniad neu rhowch dystiolaeth eich bod o leiaf wedi gwneud cais am un.

Os nad oes angen asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar gyfer eich prosiect, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

## 7. Sut y byddwn yn asesu'ch cais

Pan fyddwn yn asesu'ch cais byddwn yn ystod i ba raddau y mae eich prosiect yn bodloni deilliannau'r Goedwig Genedlaethol, fel yr amlinellir isod.  Rhaid i chi fodloni'r 3 deilliant hanfodol fel lleiafswm.

### Deilliannau'r Goedwig Genedlaethol

#### 1. Coetiroedd cydnerth o ansawdd da, sydd wedi’u dylunio a’u rheoli’n dda (hanfodol)

Mae Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yn diffinio'r dull o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Mae eu harweiniad yn berthnasol i bob coetir.

Ewch i wefan CNC am ragor o wybodaeth a chyngor ar reoli a gwella coetiroedd:

- arweiniad i berchnogion a rheolwyr coetiroedd
- cael cymorth i blannu coed a chreu coetir

#### 2. Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl (hanfodol)

Rhaid i'ch prosiect wella ansawdd coetiroedd presennol. Bydd angen cynlluniau rheoli hirdymor arnoch i wneud y coetiroedd yn fwy croesawgar, hygyrch a deniadol i ddarpar ymwelwyr. Gellir defnyddio'r ariannu i greu llwybrau troed hygyrch ac arwyddion.

**3. Cyfranogiad cymunedol mewn coetiroedd (hanfodol)**

Rhaid bod gan eich prosiect fewnbwn sylweddol gan bobl leol a rhaid i chi ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu gwneud hyn.

Bydd cyfranogiad cymunedol yn helpu annog pobl i ddefnyddio coetiroedd drwy ddarparu llwybrau troed, llwybrau natur ac ati. Gallai cyfranogiad cymunedol hefyd gynnwys:

- gweithgareddau i gynnwys pobl yn y gwaith o adfer a chreu coetiroedd
- cyfleoedd economaidd ar gyfer menter leol
- arloesi a datblygu
- gweithgareddau addysgol
- rheoli'r coetiroedd trwy sefydlu grwpiau gwirfoddol, grwpiau ysgol neu fentrau newydd
- sgiliau a hyfforddiant

**4. Coetiroedd cysylltiedig (hynod ddymunol)**

Mae cysylltedd mewn safleoedd Coedwig Genedlaethol i Gymru yn golygu gwella ardaloedd coetir presennol a chreu rhai newydd, ac ar yr un pryd ystyried sut y maent yn cysylltu â safleoedd coetir eraill a sut y gallai hyn fod o fudd i gydnerthedd ecosystemau.

Mae’r deilliant hwn yn ymwneud yn bennaf â chysylltu coetiroedd er mwyn cefnogi natur ond gallai hefyd gynnwys gwaith i gysylltu coetiroedd â phobl, er enghraifft:

- cysylltiadau emosiynol â choetiroedd trwy helpu pobl i gymryd diddordeb gwirioneddol yn eu hamgylchedd naturiol
- cysylltiadau ffisegol rhwng coetiroedd, neu â ble mae pobl yn byw, ar lwybrau troed, llwybrau beicio neu gludiant cyhoeddus

**5. Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas (hynod ddymunol)**

Dylai coetiroedd fod yn safleoedd amlbwrpas, sydd o fudd i bobl, byd natur a’r amgylchedd ehangach.

Fel rhan o'ch cais, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod y safle'n cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd amrywiol, neu fod gwaith yn cael ei wneud tuag at hyn. Gallech gynnwys rhywfaint neu'r cyfan o’r canlynol:

- hamdden
- twristiaeth
- cyfleoedd addysgol/dysgu
- mentrau lleol bach a chanolig eu maint
- cynaeafu pren masnachol ar raddfa fawr, gan gyflenwi mwy o bren a dyfwyd yn y wlad hon

- cefnogi bioamrywiaeth

Cydnabyddwn na fydd pob safle yn briodol ar gyfer gwahanol ddefnyddiau, ac efallai y byddant yn canolbwyntio yn hytrach ar wneud rhai o'r pethau hyn yn dda iawn.

**6. Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi (hynod ddymunol)**

Dylai coetiroedd y Goedwig Genedlaethol ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni gyda choetiroedd amlbwrpas. Gallai hyn gynnwys:

- dysgu ac adeiladu ar waith eraill
- profi dulliau gweithio newydd
- rhannu arloesedd, ymchwil a dysgu ag eraill

Gall y dystiolaeth a ddarperir ar gyfer y deilliant hwn fod yn eang. Gall enghreifftiau gynnwys arddangos ffyrdd newydd a gwahanol o:

- ddarparu coetiroedd amlbwrpas
- cynnwys cymunedau lleol wrth ddatblygu a rheoli'r coetiroedd
- gweithredu i gefnogi bioamrywiaeth
- darparu gwasanaethau ecosystem amgylcheddol, megis ansawdd aer a d?r, amddiffyn rhag llifogydd a sychder
- sicrhau cydnerthedd i newid hinsawdd yn y dyfodol
- darparu cyfleoedd addysgol, megis ysgolion coedwig

Darllen mwy am y Goedwig Genedlaethol i Gymru.

Ewch i'n tudalen Cwestiynau Ymgeisio: TWIG (rownd 6) am fanylion llawn a gallwch lawrlwytho a chwblhau'r templedi angenrheidiol yma fel rhan o'ch cais.

## Meini prawf cydbwyso

Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fydd yn:

- cynrychioli lledaeniad daearyddol ar draws Cymru ac ar draws yr holl rowndiau ariannu TWIG blaenorol
- darparu cymysgedd cytbwys o sefydliadau arweiniol

## Ystyried risg

Wrth asesu'ch cais, byddwn yn gwneud dyfarniad pwyllog ar y risgiau posibl i'ch prosiect a'ch risgiau sefydliadol presennol – ac yn edrych i weld a ydych wedi nodi'r rhain a dweud wrthym sut y byddwch yn lliniaru yn eu herbyn.

Bydd pob prosiect yn wynebu bygythiadau a chyfleoedd y bydd angen i chi eu nodi a'u rheoli. Rydym am i chi fod yn realistig ynghylch y risgiau y gallai eich prosiect a'ch sefydliad eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i reoli a chyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus.

Dylech hefyd ystyried chwyddiant a chostau wrth gefn yn ofalus yn eich cais.

Mae chwyddiant ar gyfer prosiectau adeiladu'n debygol o barhau'n uchel hyd y gellir rhagweld. Dylech ddarparu ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill fel y deunyddiau a ddefnyddir, gofynion o ran llafur a lleoliad.

Gallwch gyrchu dadansoddiadau a rhagamcaniadau ar gyfer costau chwyddiant o ffynonellau megis Building Cost Information Service ac ymgynghoriaethau gan gynnwys Gardiner & Theobold Market Intelligence, Turner & Townsend a Rider Levett Bucknall.

Y mathau o risgiau a phroblemau y dylech eu hystyried yw:

- ariannol: er enghraifft, gostyngiad yn y cyfraniad o ffynhonnell ariannu arall
- sefydliadol: er enghraifft, prinder pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch neu staff sy'n gorfod gweithio ar brosiectau eraill
- economaidd: er enghraifft, cynnydd annisgwyl yng nghost deunyddiau
- technegol: er enghraifft, darganfod lleithder annisgwyl ac eang
- cymdeithasol: er enghraifft, ymatebion negyddol i ymgynghori neu ddiffyg diddordeb gan eich cynulleidfa darged
- rheoli: er enghraifft, newid arwyddocaol yn nhîm y prosiect
- cyfreithiol: er enghraifft, rheoli cymhorthdal, neu newidiadau yn y gyfraith sy'n golygu nad yw'r prosiect yn ymarferol
- amgylcheddol: er enghraifft, anawsterau wrth ddod o hyd i ffynonellau pren o goedwigoedd a reolir yn dda

## Sut i wneud cais

**Rhaid** i chi gyflwyno Ymholiad Prosiect ar gyfer eich prosiect TWIG. Cyfeiriwch at ein nodiadau cymorth Ymholiad Prosiect am ragor o wybodaeth ar sut i gwblhau eich ffurflen.

**12 hanner dydd ar 27 Mai 2025** yw'r terfyn amser ar gyfer Ymholiadau Prosiect. I gyflwyno eich Ymholiad Prosiect, ewch i'n porth ymgeisio a chofrestrwch gyfrif (neu fewngofnodwch os ydych wedi gwneud cais o'r blaen)

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Os bydd eich Ymholiad Prosiect yn llwyddiannus rhaid i chi gyflwyno eich cais llawn erbyn **12 hanner dydd ar 19 Awst 2025**. Gallwch ddefnyddio'r rhestr wirio hon i sicrhau eich bod yn barod i wneud cais:

- Rwyf wedi darllen yr arweiniad ymgeisio TWIG a'r nodiadau cymorth ymgeisio TWIG
- Rwyf wedi ddarllen y telerau ac amodau ar gyfer y rhaglen hon
- Rwyf wedi llunio cyllideb ar gyfer y prosiect a gwirio fy nghostiadau
- Rwyf wedi paratoi'r holl ddogfennau ategol gorfodol gan gynnwys cynllun prosiect, cofrestr risgiau a chyfrifon fy sefydliad
- Gallaf fodloni’r gofyniad perchnogaeth ar gyfer unrhyw dir yr wyf yn gweithio arno

- Mae gennyf unrhyw ganiatadau sydd eu hangen arnaf, er enghraifft trwydded ystlumod neu ganiatâd cynllunio
- Rwyf wedi cynllunio sut i werthuso fy mhrosiect
- Rwyf wedi cynllunio sut i gydnabod fy ngrant

Rydych nawr yn barod i symud ymlaen i wneud cais trwy ein gwasanaeth ar-lein. **Noder nad oes Ffurflen Gais benodol ar gyfer TWIG**. Bydd angen i chi ddilyn nodiadau cymorth ein Cwestiynau ymgeisio: TWIG (rownd 6) wrth gwblhau eich ffurflen gais.

Dilynwch y camau isod:

1. ewch i'n porth ymgeisio a mewngofnodwch i'ch cyfrif
2. o'r gwymplen, dewiswch £10,000 i £250,000

# Dogfennau ategol

Bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol a restrir isod fel rhan o'r broses ymgeisio. Ewch i'n tudalen Cwestiynau Ymgeisio: TWIG (rownd 6) am fanylion llawn. Gallwch lawrlwytho'r templedi angenrheidiol yma fel rhan o'ch cais.

Rhaid i chi ddarparu'r dogfennau **gorfodol** a ganlyn:

- dogfen lywodraethu (oni bai eich bod wedi'ch eithrio)
- gwybodaeth cyfrifon
- cynllun prosiect, gan gynnwys rhestr wirio caniatadau, cofrestr risgiau a rhestr wirio mesur llwyddiant
- templed costau
- dogfennau perchnogaeth tir (Cofrestrfa Tir, neu les neu Benawdau Telerau)
- map o'r safle
- tystiolaeth o ymgeisio am ganiatadau

Yn ychwanegol at y dogfennau gorfodol, gallwch gynnwys y dogfennau canlynol lle bo'n berthnasol hefyd:

- Cynllun Rheoli Coetir (**gorfodol** os yw eisoes yn bodoli)
- cytundeb partneriaeth (**gorfodol** os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)
- disgrifiadau swydd (**gorfodol** os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)
- cyfrifiadau Adennill Costau Llawn (os yn berthnasol)
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)
- delweddau o'r wefan (dewisol)

# Beth sy'n digwydd ar ôl eich prosiect?

## Cynlluniau cynnal a chadw parhaus

Os ydych yn plannu coed, gellir cynnwys un taliad ar gyfer hyd at 3 blynedd o gynnal a chadw ar ôl cwblhau'r prosiect yn eich cais am grant. Mae taliadau cynnal a chadw ar gyfradd sefydlog fel a ganlyn:

Blwyddyn 1: £400 yr hectar o blannu newydd

Blwyddyn 2: £300 yr hectar

Blwyddyn 3: £250 yr hectar

I hawlio'r arian hwn, mae'n ofynnol i chi gyflwyno Cynllun Rheoli Coetir manwl ar gyfer y safle ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau am o leiaf 5 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect. Bydd angen llythyr arnoch hefyd sy'n cadarnhau bod y Taliadau Cynnal a Chadw wedi'u gosod o'r neilltu ar gyfer y cyfnod tair blynedd dilynol, sut y caiff yr arian hwn ei wario, ac yn cadarnhau'r swm a glustnodir ar gyfer y gwaith hwn.

Gallwch ddarllen mwy am Daliadau Cynnal a Chadw yn ein Harweiniad derbyn eich grant: TWIG £10,000 - £250,000 arweiniad.

### Statws Coedwig Genedlaethol

Os ydych yn llwyddo i gael arian TWIG, rhaid i chi wneud cais am Statws Coedwig Genedlaethol erbyn diwedd y Grant.

## 11. Gofynion cyfreithiol a pholisi

### Perchnogaeth

Rydym yn disgwyl i chi fod yn berchennog ar unrhyw dir yr ydych yn gwario'r grant arno neu fod gennych brydles sy'n bodloni ein gofynion ac yn darparu tystiolaeth o berchnogaeth, gan gynnwys copi swyddfa diweddar gan y Gofrestrfa Tir yn dangos mai chi sy'n berchen ar y tir (neu ar gyfer tir nad yw'n gofrestredig, y gweithredoedd perthnasol). Dylid atodi'r rhain i'ch cais.

Rhaid i chi fod yn berchennog ar y rhydd-ddaliad neu feddu ar les gydag o leiaf bum mlynedd yn weddill arni ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect.

Dyddiad Cwblhau'r Prosiect yw'r dyddiad pan fyddwn yn eich hysbysu y rhoddwyd cofnod wedi'i gwblhau i'r Prosiect.

Rhaid i bob les fodloni'r gofynion canlynol:

- nid ydym yn derbyn lesau sydd â chymalau torri (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i un neu fwy o bartïon y les ddod â'r les i ben o dan rai amgylchiadau)
- nid ydym yn derbyn lesau sydd â fforffediad ar gymalau ansolfedd (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i'r landlord ddod â'r les i ben os bydd y tenant yn mynd yn fethdalwr)

- rhaid i chi fedru gwerthu, is-osod neu forgeisio'r cyfan neu ran o’ch les, ond os byddwn yn dyfarnu grant i chi, rhaid i chi gael caniatâd gennym yn gyntaf i wneud unrhyw un o’r rhain

Os mai'r tir y mae eich prosiect yn gysylltiedig ag ef yn eiddo i drydydd parti neu drydydd partïon lluosog, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog ddod yn grantï ar y cyd. Mewn rhai sefyllfaoedd, yn hytrach na gwneud y perchennog yn grantï ar y cyd, efallai y byddwn yn gofyn iddynt lofnodi llythyr ychwanegol yn cytuno i gydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau sy’n ymwneud â’u heiddo.

Yn yr achos hwn, dylid rhoi cytundeb cyfreithiol ar waith hefyd rhwng pob perchennog tir a'r grantï. Nid oes ffurf ragnodedig ar gytundeb, ond mae gennym ofynion penodol y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb perchennog trydydd parti.

Fel lleiafswm, dylai’r cytundebau gynnwys y canlynol:

- cadarnhad ynghylch sut mae’r tir wedi'i ddal (rhydd-ddaliad neu ar brydles)
- disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
- cyfamodau ar ran y perchennog i gynnal a chadw’r eiddo a darparu mynediad cyhoeddus yn unol â thelerau’r grant (fel y bo’n berthnasol)
- darpariaeth y dylai unrhyw waredíad ymlaen fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti
- cadarnhad y bydd y cytundeb yn para o ddechrau’r gwaith ar dir y trydydd parti tan bum mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau’r Prosiect

Bydd angen cwblhau'r cytundebau a'u rhoi ar waith cyn rhyddhau unrhyw arian grant ar gyfer gwaith ar unrhyw dir sy'n eiddo i drydydd parti.

## Gwaith digidol

Mae gennym ofynion penodol ar gyfer gwaith digidol a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect.

Mae hyn yn ymdrin ag unrhyw beth yn eich prosiect rydych yn ei greu mewn fformat digidol sydd wedi'u dylunio i roi mynediad i dreftadaeth a/neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ffotograffau, testun, meddalwedd, cynnwys gwe ac apiau, cronfeydd data, modelau 3D, recordiadau sain a fideo. Nid yw eitemau a grëir wrth reoli'r prosiect, er enghraifft e-byst rhwng aelodau tîm a chofnodion cyfarfodydd, wedi'u cynnwys yn y gofyniad.

Gofynnwn i chi rannu eich allbynnau digidol o dan drwydded agored. Ein trwydded agored ddiofyn yw CC-BY 4.0. Mae hyn yn helpu dileu rhwystrau i ddefnyddio ac ailddefnyddio gwaith a ariennir, gan alluogi gwell ymgysylltiad â threftadaeth y DU. Mae hefyd yn helpu sicrhau bod eraill yn rhoi credyd priodol i'ch gwaith.
Mae ein rheoliadau ynghylch gwaith digidol yn amrywio gan ddibynnu ar faint y grant.

Gallwch ddarllen arweiniad pellach ar gynhyrchu deunyddiau digidol fel rhan o brosiect.

## Caffael

Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau caffael. Fel trosolwg, dylai prosiectau ag unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau unigol sy'n werth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW), geisio o leiaf dri thendr/dyfynbris cystadleuol. Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol.

Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau yr ydych wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad ar ba un i'w dderbyn. Rhaid i chi roi rhesymau llawn os na fyddwch yn dewis y tendr isaf. Gan ddibynnu ar natur eich sefydliad a'ch prosiect, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi gydymffurfio â Deddfwriaeth Caffael y DU.

Os yw partner yn y prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy'r grant, mae angen i chi ddweud wrthym pam y cawsant eu dewis a pham nad yw proses dendro agored yn briodol. Byddwn yn ystyried ai dyma'r ffordd orau o gyflawni eich prosiect ac yn disgwyl i chi ddangos gwerth am arian a bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i geisio cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Os ydych eisoes wedi caffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau gwerth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW) ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich grant os nad ydych wedi dilyn y drefn gywir.

## Recriwtio staff

Rhaid hefyd i chi hysbysebu'n agored yr holl swyddi staff ar gyfer y prosiect, gyda'r eithriadau a ganlyn:

- Mae gennych aelod staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres yr ydych yn ei symud i swydd ar y prosiect.
- Rydych yn ymestyn oriau aelod staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres fel y gall weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost yr oriau ychwanegol sy'n cael eu treulio ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym beth yw eu rôl.

Yn yr achosion hyn, mae angen o hyd i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer y swydd sy'n esbonio'r gwaith y bydd yr aelod staff a benodir yn ei wneud yng nghyd-destun eich prosiect.

Rydym wedi'n hymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Fel lleiafswm mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd Cyflog Byw ar gyfer holl staff y prosiect. Gofynnir i chi ddangos tystiolaeth o gyllidebu ar gyfer y cyfraddau Cyflog Byw fel lleiafswm yn eich costau staff a'ch cyllidebau.

Rhaid i weithdrefnau recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a glynu wrth y ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.

## Rheoli cymhorthdal

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus a'i fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Gofynnwn i chi ymgyfarwyddo â'r gofynion allweddol.

Ceir cymhorthdal pan fydd awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth ariannol o arian cyhoeddus sy'n rhoi mantais economaidd i'r derbynnydd, lle na ellid dod o hyd i gymorth cyfatebol ar delerau'r farchnad. Bydd y rhan fwyaf o'n grantiau naill ai heb fod yn gymhorthdal neu'n gymhorthdal cyfreithlon sy'n bodloni gofynion Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Fel corff cyhoeddus, ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu'n derfynol a yw eich grant yn gymhorthdal a/neu gymhwyso eithriadau perthnasol fel y bo angen ac mae ein hasesiad rheoli cymhorthdal yn rhan bwysig o'r broses ymgeisio.  Wrth baratoi eich cais dylech ystyried a yw unrhyw eithriad rheoli cymhorthdal penodol yn ofynnol ar gyfer eich prosiect. Byddwn yn disgwyl i'ch grant gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymhorthdal gan gynnwys y Ddeddf a'r Arweiniad Statudol a gyhoeddwyd. Os ydych yn ansicr a fydd eich prosiect yn bodloni'r gofynion perthnasol dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rydym yn cadw'r hawl i bennu gofynion pellach a cheisio gwybodaeth bellach yn hyn o beth a byddwn yn disgwyl i chi ddarparu unrhyw gymorth y gallwn fod ei angen yn rhesymol i gwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.

### Gwywiad yr onnen ac ail-stocio

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau am brosiectau i ddileu neu reoli gwywiad yr onnen yn unig.

Gellir ystyried prosiectau sydd ag elfen fach o wywiad yr onnen – fel rhan o brosiect ehangach i adfer a gwella byd natur. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos budd i fioamrywiaeth a chreu ecosystemau cydnerth.

Nid yw ailstocio coed ar safle sydd wedi'i gwympo'n gymwys i dderbyn arian TWIG. Mae ailstocio'n ofyniad cyfreithiol mewn trwyddedau cwympo coed ac ni ellir ei ariannu drwy'r cynllun hwn. Fodd bynnag, gallai TWIG ariannu rhannau eraill y prosiect, fel llwybrau troed, arwyddion a seddi.

## Rheoli eich data

Y Gronfa Treftadaeth a Llywodraeth Cymru fydd y cyd-reolwyr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperwch mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant. Byddwn yn ei brosesu'n unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio ynom i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio hunaniaeth.

Bydd eich data personol a data sy'n gysylltiedig â'r grant yn cael eu rhannu â rheolydd data arall, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gontractwr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad allanol o'r Rhaglen Coedwig Genedlaethol I adolygu effaith, perfformiad a chostau'r cynllun. Byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal a byddwch yn cael cyfle i optio allan.

I ddysgu mwy am sut y caiff eich data ei brosesu o dan y rhaglen grant hon, gweler ein polisi preifatrwydd.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn am TWIG, cysylltwch â natur@heritagefund.org.uk.

Rydym yn deall efallai y bydd penderfyniad yn peri siom i chi.

Nid oes hawl i apelio gyda TWIG. Ni allwn ond adolygu ein penderfyniad os byddwch yn gwneud cwyn ffurfiol am sut yr ydym wedi ymdrin â'ch cais. Mae gennym broses gwynion dau gam ar gyfer y rhaglen hon.

Ni fyddwn ond yn gallu ystyried ac ymchwilio i’r g?yn os gallwch ddangos y canlynol:

- ni fu i ni ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer asesu eich cais
- rydym wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais
- ni fu i ni gymryd gwybodaeth berthnasol i ystyriaeth

Rhaid gwneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig **o fewn 10 diwrnod gwaith** ar ôl derbyn y penderfyniad ar eich cais. Rhaid i chi anfon eich cwyn at: enquire@heritagefund.org.uk.

Anelwn at gydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu yn y lle cyntaf gan un o'n Cyfarwyddwyr Ardal a Gwlad, sy’n annibynnol ar y paneli argymell a phenderfynu ar gyfer y gronfa hon.

Anelwn at gyfathrebu penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r adeg y gwnaethoch gyflwyno'ch cwyn.
I gael cymorth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 020 7591 6044 neu gyrrwch e-bost enquire@heritagefund.org.uk.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Ymholiad Prosiect: Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) (rownd 6)

06/05/2025
06/05/2025
See all updates
Cyflwyno Ymholiad Prosiect cyn gwneud cais am grant TWIG (rownd 6) rhwng £10,000 a £250,000.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 6 Mai 2025.

Mae'r Ymholiad Prosiect yn gam **gorfodol** cyn symud ymlaen at gais TWIG (rownd 6) llawn.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Rhaid i chi gyflwyno eich Ymholiad Prosiect erbyn **12 hanner dydd ar 27 Mai 2025**.

# Cyn cyflwyno

- Cyfeiriwch at arweiniad ymgeisio llawn y rhaglen.
- Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich Ymholiad Prosiect.

# Cwestiynau Ymholiad Prosiect

Gallwch weld y cwestiynau Ymholiad Prosiect yma.

## Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?

Os ydych, dywedwch wrthym beth yw eu henw. Dywedwch wrthym hefyd os ydych wedi siarad â Swyddog Cyswllt Coedwig Genedlaethol i Gymru  am eich prosiect.

## Beth yw’r angen am y prosiect hwn?

Beth yw'r angen am y prosiect hwn o ran cefnogi amcanion y rhaglen Grant Buddsoddi mewn Coetir? A oes risg benodol i'r safle(oedd)?

Dywedwch wrthym am unrhyw ymgynghoriad rydych chi wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol neu bartneriaid y prosiect.

Mae gennych 200 o eiriau.

## Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect.

Gofynnir i chi gynnwys unrhyw dasgau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gyflawni nod y prosiect. Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd wrth adfer coetir.

Dywedwch wrthym ba gam o gynllunio’r prosiect yr ydych wedi'i gyrraedd, er enghraifft a ydych wedi cwblhau Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol, neu a ydych wedi nodi a gwneud cais am ganiatadau perthnasol.

Mae gennych 200 o eiriau.

## A oes gennych deitl ar gyfer y prosiect?

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad #COED6 yn nheitl eich prosiect.

Er enghraifft, #COED6 Adfer Coetir.

Os cewch wahoddiad i gyflwyno cais llawn gallwch newid eich teitl ond rhaid i chi gynnwys y rhagddodiad o hyd.

## Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y safle(oedd) y bydd y prosiect yn gweithio arnynt. Dywedwch wrthym:

- Ble fydd y gwaith yn digwydd?
- Pwy sy'n berchen ar/rheoli'r safle(oedd)?
- Beth yw cyflwr presennol y coetir?
- Pam mae'r safle yn bwysig? (ar gyfer bioamrywiaeth/bywyd gwyllt a phobl).

Mae gennych 100 o eiriau.

## Amlinellwch sut y bydd eich prosiect yn ymateb i'n pedair egwyddor fuddsoddi.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn cyflawni deilliannau'r Goedwig Genedlaethol. Ar gyfer y rhaglen TWIG - trwy gwrdd â'r tri deilliant Coedwig Genedlaethol hanfodol ac unrhyw un o'r deilliannau hynod ddymunol sy'n berthnasol i'ch prosiect, rydych wrth reswm yn bodloni un neu fwy o'n Hegwyddorion Buddsoddi. Rydym wedi nodi isod sut mae deilliannau'r Goedwig Genedlaethol yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Buddsoddi.

Achub treftadaeth (hanfodol): Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn arwain at goetiroedd cydnerth o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda (deilliant 1 y Goedwig Genedlaethol).

Diogelu'r amgylchedd (hynod ddymunol): Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn adfer cysylltedd rhwng safleoedd coetir neu'n cefnogi bioamrywiaeth (deilliant 4 y Goedwig Genedlaethol), a sut y bydd y camau y byddwch yn eu cymryd yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad (hanfodol): Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwneud coetiroedd yn fwy croesawgar, hygyrch a deniadol i ymwelwyr. Sut fydd cymunedau'n cymryd rhan yn weithredol yn y prosiect? (deilliannau 2 a 3 y Goedwig Genedlaethol).

Cynaladwyedd sefydliadol (hynod ddymunol): Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn creu safle amlbwrpas, er enghraifft, sy'n cael eu defnyddio ar gyfer mentrau hamdden a lleol. (deilliant 5 y Goedwig Genedlaethol). A yw eich prosiect yn cynnwys unrhyw elfennau sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi? (deilliant 6 y Goedwig Genedlaethol).

Mae gennych 300 o eiriau.

## Pwy fydd yn cymryd rhan yn y prosiect?

Dywedwch wrthym bwy fydd yn rhedeg y prosiect, unrhyw bartneriaethau ac a fydd pobl yn gwirfoddoli ar y prosiect.

Mae gennych 100 o eiriau.

### Faint o amser ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?

Rhowch amcangyfrif o'r dyddiadau dechrau a dod i ben. Noder na all prosiectau ddechrau cyn mis Tachwedd 2025 a bod yn rhaid iddynt ddod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2027, gan gynnwys gwerthuso ac adrodd.

Mae gennych 50 o eiriau.

### Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?

Os ydych yn gwybod, dywedwch wrthym am y costau pwysicaf, wedi'u rhannu i gostau cyfalaf a refeniw. Gellir amcangyfrif y costau hyn.

Mae gennych 200 o eiriau.

### Faint o ariannu ydych chi’n bwriadu gwneud cais amdano gennym?

£[nodwch swm]

## Sut i gyflwyno

Pan fyddwch yn barod, cwblhewch y cwestiynau ar ein gwasanaeth ar-lein erbyn 12 hanner dydd ar **27 Mai 2025**.

Cyn cyflwyno, bydd angen i chi gofrestru cyfrif i chi'ch hun ac i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais amdano os nad oes gennych gyfrif eisoes.

## Clywed yn ôl gennym

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno ymholiad byddwn yn cysylltu â chi ym mis Mehefin i'ch hysbysu am y canlyniad. Os bydd eich ymholiad yn llwyddiannus fe gewch eich gwahodd i wneud cais llawn erbyn y terfyn amser o 12 hanner dydd ar **19 Awst 2025**.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Cwestiynau ymgeisio: Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) (rownd 6)

06/05/2025
06/05/2025
See all updates
Cwestiynau o'n ffurflen gais Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £10,000 i £250,000.

Cyn y gallwch wneud cais am grant TWIG rhwng £10,000 a £25,000, **rhaid i chi gyflwyno** Ymholiad Prosiect i ddweud wrthym am eich syniad. Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais. Ar ôl i chi gael eich gwahodd i wneud cais, bydd gennych tan 12 hanner dydd ar 19 Awst 2025 i gyflwyno cais.

Rhaid i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch cynorthwyo wrth gwblhau ffurflen gais ar-lein am grant TWIG (Rownd 6) o £10,000 - £250,000.

Defnyddiwch y canllaw hwn:

- i weld pa gwestiynau sy'n ymddangos yn y cais
- am arweiniad ar y ffordd orau o ateb cwestiynau'r cais
- am arweiniad ar sut i ffitio meini prawf y Rhaglen TWIG i'n ffurflen gais safonol

Mae terfyn geiriau i bob cwestiwn; fodd bynnag, nid oes angen i chi gyrraedd hwn. Dim ond yr wybodaeth y gofynnwn amdani sy'n berthnasol i'ch prosiect y mae angen i chi ei chynnwys.

Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich cais am grant.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio’r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. Ni ddylech ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

# Ynghylch eich gweledigaeth

## Disgrifiwch yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni drwy eich prosiect.

Byddwn yn defnyddio eich ateb i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect.

Dywedwch wrthym beth rydych yn gobeithio ei gyflawni a'r hyn yr ydych yn gobeithio fydd etifeddiaeth eich prosiect.

Ar gyfer eich cais TWIG, dywedwch wrthym:

- ar beth y byddwch yn gwario'r ariannu (yn gyffredinol). Mae lle ychwanegol ar gyfer cyllideb lawn yn ddiweddarach yn y ffurflen gais.

- sut rydych yn meddwl y bydd eich syniad yn cyfrannu at ddatblygiad rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol
- sut rydych wedi cyfeirio at Safonau Coedwigaeth y DU (UKFS), a sut y maent yn effeithio ar eich cynnig
- sut y caiff unigolion a chymunedau eu cefnogi i gymryd rhan
- sut y bydd y gwaith a gynigir yn sicrhau manteision lluosog sy'n rhychwantu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol

[Maes testun – 150 gair]

# Ynghylch eich ffocws treftadaeth

### Dywedwch wrthym am y dreftadaeth y byddwch yn canolbwyntio arni fel rhan o'r prosiect hwn.

Rhowch ddisgrifiad o'r tir y byddwch yn gweithio arno fel y mae heddiw. Dylech gynnwys y fath wybodaeth â'r: lleoliad, maint y safle, cyflwr presennol y safle, pwy sy'n ei reoli, unrhyw rywogaethau neu nodweddion pwysig neu warchodedig, defnyddiau presennol a lefelau cyfranogiad cymunedol.

Peidiwch â defnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am eich prosiect, neu beth fydd yn digwydd yn ystod eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi am hyn yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun – 500 gair]

# A yw'r dreftadaeth hon mewn perygl?

Os ydy, esboniwch pam fod y dreftadaeth o dan fygythiad, sut mae'n cael ei rheoli ar hyn o bryd, a pha gamau sydd wedi'u cymryd (os o gwbl) i isafu'r risg.

Ystyriwch y canlynol: a yw natur (cynefinoedd a rhywogaethau) o dan fygythiad ar y safle a/neu yn eich ardal leol a sut y bydd y prosiect hwn yn helpu.

[Maes testun – 500 gair]

# Ynghylch eich prosiect

### Beth yw teitl eich prosiect?

Rhowch deitl neu enw i ni allu cyfeirio at eich prosiect.

Dechreuwch enw/teitl eich prosiect gyda'r rhagddodiad #COED6. Er enghraifft, #COED6 Beddgelert neu #COED6 Creu Coetir Bangor.

Mae hyn yn ein helpu i adnabod eich cais yn gywir, a gallai methu â gwneud hyn olygu bod eich cais yn methu'r dyddiad cau.

Bydd hwn yn cael ei weld gan y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw bostiadau cyhoeddus a wneir am eich prosiect a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Gwnewch yn si?r eich bod chi'n dewis teitl rydych chi'n hapus i amrywiaeth eang o bobl ei weld.

Rydym yn eich annog i gadw eich teitl yn fyr ac yn ddisgrifiadol.

[Mewnbynnu testun – 255 nod]

## Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?

Rhowch amserlen ar gyfer eich prosiect. Gall hwn fod yn amcangyfrif.

Dylech dderbyn penderfyniad ar eich cais TWIG ym mis Hydref 2025. Ar gyfer y rownd hon o'r Rhaglen TWIG, rhaid i'ch prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae hyn yn cynnwys yr holl adrodd a gwerthuso terfynol.

## Ble mae eich prosiect yn digwydd?

Os yw eich prosiect yn digwydd ar fwy nag un safle, dywedwch wrthym ble y bydd y rhan fwyaf o'ch prosiect yn digwydd.

- yr un lle â chyfeiriad fy sefydliad [Blwch ticio]
- rhywle arall [Blwch ticio]

Os rhywle arall:

## Dywedwch wrthym beth yw cyfeiriad eich prosiect.

[Nodi cod post > dewis cyfeiriad > golygu manylion y cyfeiriad a ddewisir]

Rydym yn deall efallai nad oes gennych god post. Dywedwch wrthym beth yw'r cod post agosaf at leoliad eich prosiect.

## Ydych chi eisiau ychwanegu cyfeirnod grid?

Ychwanegwch gyfeirnod grid os yw eich prosiect yn cael ei gynnal ar draws ardal fawr, ar fwy nag un safle neu mewn lle sy'n anodd ddod o hyd iddo gan ddefnyddio cod post. Er enghraifft, cofeb mewn lleoliad anghysbell neu ardal benodol o fewn tirwedd fwy.

Defnyddir cyfeirnodau grid i ddod o hyd i union leoliad ar fap. Gallant edrych yn wahanol gan ddibynnu ar ba ran o'r Deyrnas Unedig y maent yn cyfeirio ati. Yng Nghymru, mae cyfeirnodau grid fel arfer yn edrych fel hyn: SJ33889035

I gael canlyniad mwy cywir, dylech ddefnyddio cyfeirnodau grid gydag 8 neu 10 rhif. Gallwch ddod o hyd i gyfeirnodau grid ar gyfer y safleoedd neu'r ardaloedd sy'n gysylltiedig â'ch prosiect trwy ddefnyddio offeryn fel OS Grid Reference Finder.

- Nac ydym, nid ydym am ychwanegu cyfeirnod grid [Blwch ticio]
- Ydym, rydym am ychwanegu cyfeirnod grid [Blwch ticio]

Os ydym: Rhowch gyfeirnod grid [Maes testun – 20 nod]

Os hoffech ychwanegu cyfeirnod grid arall, bydd modd i chi ychwanegu mwy ar y dudalen nesaf.

Mwy o wybodaeth:

Rhowch fwy o wybodaeth am y cyfeirnod grid. Er enghraifft, enw'r safle neu ddisgrifiad o'r ardal y mae'n ei chwmpasu.

[Maes testun – 50 gair]

## A ydych wedi derbyn unrhyw gyngor gennym ynghylch y prosiect hwn?

Dylech ateb Ydym i'r cwestiwn hwn a chynnwys unrhyw adborth a gawsoch gan y Gronfa Treftadaeth ar eich Ymholiad Prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

## A ydych wedi derbyn unrhyw gyngor gan unrhyw un arall am y prosiect hwn?

Dylech ateb Ydym i'r cwestiwn hwn.  Rhowch wybod i ni am unrhyw gyngor rydych wedi'i dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Llais y Goedwig, Cadw, Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor Sir neu sefydliadau perthnasol eraill yn eich ardal.

Yn benodol, rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth yr ydych wedi'i dderbyn gan swyddogion cyswllt Coetir CNC ynghylch rhaglen y Goedwig Genedlaethol i Gymru a sut mae'r cyngor hwn wedi llywio'ch cynlluniau.

Dywedwch wrthym a ydych wedi derbyn unrhyw gyngor arbenigol arall am eich prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw ymgynghoriad rydych wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol a'r rhai a fydd yn ymwneud â'ch prosiect
- unrhyw gyngor cyn-ymgeisio ar faterion cynllunio, er enghraifft gan eich awdurdod lleol neu gan archeolegydd
- cyngor ar sut i ymdrin â lles y cyfranogwyr yn eich prosiect, er enghraifft gan elusen neu gr?p lleol a all ddarparu cymorth sy’n berthnasol i’w profiad o lygad y ffynnon

[Maes testun – 500 gair]

## Dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Rhowch drosolwg o'r hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Er enghraifft, disgrifiwch unrhyw:

- gamau y byddwch yn eu cymryd i adfer coetir
- gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud
- digwyddiadau y byddwch yn eu cynnal
- cynlluniau neu adnoddau y byddwch yn eu creu

Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth yw diben eich prosiect.

Dylai eich cynllun prosiect ddarparu gwybodaeth fanylach am bob elfen o'ch prosiect.

Anogir plannu coed risg isel, ar raddfa fach o hyd at 2 hectar fel rhan o’ch prosiect. Dylech ystyried arweiniad Safon Coedwigaeth y DU a Map Cyfleoedd Coetir 2025 i nodi ardaloedd sensitifrwydd isel y gallech eu cynnwys yn eich cais TWIG ar gyfer plannu coed o 0.1 i 2 hectar.

Bydd angen i bob prosiect sy'n ymwneud â **chreu coetir o fwy na dau hectar**, neu lai na 2 hectar ond ddim mewn ardal sensitifrwydd isel, wneud cais i Gynllun Cynllunio Creu Coetir Llywodraeth Cymru **cyn** gwneud cais am arian grant TWIG.

Bydd angen Cynllun Rheoli Coetir (CRhC) ar bob prosiect, sy’n sicrhau bod:

- coetiroedd yn cael eu rheoli'n unol ag egwyddorion Safon Coedwigaeth y DU.
- coetiroedd yn dangos bod meini prawf hanfodol y Goedwig Genedlaethol yn cael eu cyflawni, sef 'coetiroedd cydnerth o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda’

Os oes gennych Gynllun Rheoli Coetir yn barod, dylech gyflwyno hwn fel rhan o'ch cais.

Os nad oes gennych Gynllun Rheoli Coetir yn barod, dylech gynnwys y costau i ddatblygu un yn eich cais. Bydd angen i chi anfon hwn atom cyn i'r prosiect ddod i ben.

[Maes testun – 500 gair]

## A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?

Dylech ateb Bydd i'r cwestiwn hwn.  Rhowch fanylion y gwaith a'r costau gan gofio bod arian refeniw yn uchafswm o 25% o'r grant hwn.  Yn ogystal, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio'r prosiect a chostau gweithredu prosiect uniongyrchol eraill.

Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu'n gwella ased. Gall hwn gynnwys gwaith ffisegol ar dirweddau, byd natur ac adeiladau, atgyweirio, cadwraeth, adeiladu o'r newydd, digideiddio ac allbynnau digidol o bob math.

Rhai enghreifftiau o waith cyfalaf yw:

- plannu coed
- adeiladu llwybrau hygyrch
- gosod paneli dehongli

Wrth allbynnau digidol rydym yn golygu unrhyw beth a grëir mewn fformat digidol gyda'n hariannu, sydd wedi'i ddylunio i roi mynediad i dreftadaeth neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani. Er enghraifft, arolygon amgylcheddol, deunyddiau addysgol a chynnwys arddangos

digidol. Gallai eich allbynnau digidol gynnwys:

- ffotograffau, recordiadau sain a fideo
- dogfennau electronig a chronfeydd data
- cynnwys gwefannau ac apiau
- meddalwedd a chod
- modelau 3D

Os yw allbynnau digidol yn rhan o'ch prosiect a bod gan bobl neu sefydliadau eraill hawliau perchnogaeth neu eiddo deallusol, bydd angen i chi ddweud wrthym am hyn.

Mae'r rhaglen TWIG ar gyfer tirfeddianwyr a/neu'r rhai sydd â rheolaeth lawn dros dir felly mae'n bwysig i chi ddweud wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth.

Os mai eich sefydliad chi sy'n berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- a oes gan eich sefydliad rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan eich sefydliad les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan eich sefydliad, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth. Os oes, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni. Os oes gennych un, uwchlwythwch ddogfen o berchnogaeth.

Os yw sefydliad partner yn berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- enw'r sefydliad partner
- a oes gan y partner yn y prosiect rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan y partner yn y prosiect les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan y partner yn y prosiect, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth
- os oes, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni

Rydym yn disgwyl i chi fod yn berchennog ar unrhyw dir yr ydych yn gwario’r grant arno neu fod gennych brydles sy’n bodloni ein gofynion ac yn darparu tystiolaeth o berchnogaeth, gan gynnwys copi swyddfa diweddar gan y Gofrestrfa Tir yn dangos mai chi sy’n berchen ar y tir (neu ar gyfer tir nad yw'n gofrestredig, y gweithredoedd perthnasol). Dylai'r rhain gael eu huwchlwytho i'ch cais nawr.

[Maes testun – 500 gair]

Uwchlwytho dogfen o berchnogaeth.

[Dewis ffeil]

Os dewiswch 'Bydd, gwaith cyfalaf yw rhan o'n prosiect', bydd angen hefyd i chi ateb y pum cwestiwn nesaf:

## A oes angen unrhyw ganiatâd arnoch i wneud y gwaith cyfalaf?

Dylech ateb Oes i'r cwestiwn hwn. Disgwylir y bydd pob ymgeisydd yn dod o hyd i'r caniatadau angenrheidiol gan eu hawdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), neu gyrff eraill fel Cadw cyn cyflwyno cais.

Os nad oes gennych eich holl ganiatadau yn eu lle, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais am y caniatadau perthnasol yn eich dogfennau ategol.

Enghreifftiau o'r hyn y gallai fod angen caniatâd ar ei gyfer:

- cydsyniad gan berchennog ased treftadaeth
- hawliau mynediad gan dirfeddiannwr
- trwyddedau cwympo coed
- trwyddedau rhywogaethau a warchodir
- caniatâd cynllunio neu Orchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (GDPO) ar gyfer traciau, ffyrdd, toiledau compostio

## A yw arolwg cyflwr wedi'i gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

Cyn i chi wneud cais, rhaid i chi ystyried a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer eich cynigion. Dangoswch eich bod wedi gwirio'r meini prawf perthnasol ac nad yw'r cynigion yn dod o fewn y mathau penodedig hynny sy'n ofynnol ar gyfer AEA.

Os oes angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol, dywedwch wrthym beth yw’r canlyniad neu rhowch dystiolaeth yn eich dogfennau ategol eich bod wedi gwneud cais am un.

Rhowch wybod i ni am unrhyw arolygon ecolegol neu archeolegol sydd wedi'u cwblhau ar y tir nad ydynt yn dod o dan eich Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

[Maes testun – 500 gair]

## A oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?

Dywedwch wrthym os yw’r gofrestr teitl neu ddogfennau perchnogaeth eraill yn cynnwys unrhyw waharddiadau neu gyfyngiad ar ei defnydd neu berchnogaeth, neu a oes angen unrhyw ganiatadau ar gyfer unrhyw drafodion. Os oes, bydd angen i chi roi'r manylion llawn a thystiolaeth bod y rhain wedi'u bodloni.

Gallai hyn gynnwys:

- Cyfamod Cyfyngol sy’n cyfyngu ar y math o ddefnydd ar gyfer y tir neu’r eiddo
- cyfyngiad sy’n rhoi hawl i barti arall gael ei hysbysu am unrhyw drafodion neu nodi amodau y byddai angen eu datrys cyn gwerthu’r eiddo

Ateb:

Nac oes, nid oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth [Blwch ticio]

Oes, mae yna amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth [Blwch ticio]

Os oes: Dywedwch fwy wrthym am unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r ased treftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect

[Maes testun – 500 gair]

Nid wyf yn si?r a oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â’r dreftadaeth [Blwch ticio]

## A yw'r dreftadaeth hon ar y Gofrestr Mewn Perygl?

Atebwch Nac ydy i'r cwestiwn hwn.

## A fyddwch yn creu unrhyw waith digidol fel rhan o'ch prosiect?

Wrth allbynnau digidol rydym yn golygu unrhyw beth a grëir mewn fformat digidol gyda'n hariannu, sydd wedi'i ddylunio i roi mynediad i dreftadaeth neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Dywedwch wrthym a fyddwch yn creu unrhyw allbynnau digidol fel rhan o'ch prosiect. Bydd angen i’r allbynnau digidol y byddwch yn eu creu fodloni ein gofynion digidol, a bod ar gael, yn hygyrch ac yn agored. Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion digidol ar ein gwefan.

Gallai eich allbynnau digidol gynnwys:

- ffotograffau, recordiadau sain a fideo
- dogfennau electronig a chronfeydd data
- cynnwys gwefannau ac apiau
- meddalwedd a chod
- modelau 3D

Ateb:

Na fyddwn, nid ydym yn creu unrhyw waith digidol [Blwch ticio]

Byddwn, rydym yn creu gwaith digidol [Blwch ticio]

Os byddwn: Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod y gwaith digidol hwn yn bodloni ein gofynion digidol.

[Maes testun – 500 gair]

### A fyddwch yn caffael unrhyw adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth fel rhan o'ch prosiect?

Atebwch Na fyddwn i'r cwestiwn hwn. Ni chaniateir caffael tir o dan y cynllun hwn.

### Mae ein hariannu'n ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Dywedwch wrthym a ydych o'r farn bod yr ariannu y gwnaed cais amdano yn Gymhorthdal o dan y Ddeddf ac am unrhyw gyngor yr ydych efallai wedi'i geisio.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae’n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus ac y gall fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Gallwch ddysgu mwy am reoli cymhorthdal yn adran Gofynion cyfreithiol a pholisi arweiniad y rhaglen.

[Maes testun – 500 gair]

### Sut fyddwch chi'n cynnal buddion eich prosiect ac yn talu unrhyw gostau cysylltiedig?

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli buddion eich prosiect ar ôl i'r ariannu ddod i ben.

Disgrifiwch yma sut y byddwch yn rheoli’r safle yn y dyfodol, er enghraifft a fyddwch yn parhau i gyflogi staff i helpu i'w chynnal a'i chadw.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn eiddo i'r gymuned ac yn cael eu cyflwyno dros y gymuned, gan y gymuned.

Os oes gennych Gynllun Rheoli Coetir yn barod, dylech gyflwyno hwn fel rhan o'ch cais.

Os nad oes gennych Gynllun Rheoli Coetir yn barod, dylech gynnwys y costau i ddatblygu un yn eich cais. Bydd angen i chi anfon hwn atom cyn i'r prosiect ddod i ben.

Cofiwch: os ydych yn plannu coed, gallwn wneud un taliad cynnal a chadw ar ddiwedd y prosiect i dalu am gynnal a chadw coed am dair blynedd ar ôl y prosiect. Mae taliadau cynnal a chadw ar gyfradd sefydlog fel a ganlyn:

Blwyddyn 1: £400 yr hectar o blannu newydd

Blwyddyn 2: £300 yr hectar

Blwyddyn 3: £250 yr hectar

[Maes testun – 500 gair]

## Ynghylch am yr angen am eich prosiect

## Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd?

Mae'r gronfa hon yn gystadleuol a bydd angen i chi esbonio pam fod angen i'r prosiect hwn ddigwydd nawr.

Er enghraifft:

- A oes pwysau datblygu penodol ar y tir?
- A oes cyfle unwaith ac am byth i ailgysylltu coetiroedd ynysig?
- A yw'r gymuned wedi bod yn awyddus i wella neu greu coetir yn eu hardal?
- A oes rhwystrau i gyfranogiad yn eich cymuned y mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â hwy?

[Maes testun – 500 gair]

## A oes cymuned benodol y mae eich prosiect wedi ymrwymo i'w gwasanaethu? Dewiswch unrhyw un sy'n berthnasol.

Dewiswch o'r rhestr isod i adlewyrchu pwy fydd eich prosiect yn ei gefnogi. Dewiswch unrhyw a phob un sy'n berthnasol, neu dewiswch 'dim un o'r uchod' os nad yw hyn yn berthnasol i'ch prosiect.

Os byddwch yn dewis yr opsiwn 'grwpiau penodol nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys', dywedwch fwy wrthym am y grwpiau neu'r cymunedau hyn.

Os ydych yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed fel rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi fod wedi rhoi polisïau ac arferion diogelu ar waith. Dylech hefyd sicrhau bod lles staff y prosiect, cyfranogwyr ac ymwelwyr yn cael ei ystyried trwy gydol eich prosiect.

Dylech wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd yr ydych yn cyflwyno'ch prosiect neu wasanaethau fel y gall pawb gymryd rhan.

- Cymunedau sy’n profi annhegwch, gwahaniaethu neu anghydraddoldeb ethnig neu hiliol [Blwch ticio]
- Cymunedau ffydd [Blwch ticio]
- Pobl sydd wedi mudo a/neu sydd â phrofiad o’r system fewnfudo [Blwch ticio]
- Pobl f/Fyddar, anabl, dall, â golwg rhannol a/neu niwrowahanol [Blwch ticio]
- Pobl h?n (65 oed a throsodd) [Blwch ticio]
- Pobl iau (o dan 25 oed) [Blwch ticio]
- Menywod a merched [Blwch ticio]
- Pobl LHDTC+ [Blwch ticio]
- Pobl sydd o dan anfantais addysgol neu economaidd [Blwch ticio]
- Grwpiau penodol nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys [Blwch ticio]
- Dim un o'r uchod [Blwch ticio]

## Pwy arall ydych chi wedi cysylltu â nhw ynghylch ariannu eich prosiect?

Dywedwch wrthym am unrhyw ariannu arall:

- rydych wedi'i sicrhau i helpu tuag at gost eich prosiect
- rydych yn bwriadu gwneud cais amdano i gefnogi'r prosiect hwn
- y byddwch yn ei godi drwy godi arian neu gyfraniadau torfol

Dywedwch wrthym a ydych wedi codi unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i'ch helpu i gyflwyno'ch prosiect.

Er y gallwn ariannu cost gyfan y prosiect, dylech esbonio pam na allwch godi unrhyw ariannu arall naill ai o'ch adnoddau eich hun neu o ffynonellau eraill.

[Maes testun – 500 gair]

# Ein hegwyddorion buddsoddi

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi'n cyfeirio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033

Ein hegwyddorion buddsoddi yw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Ar gyfer y rhaglen TWIG rydym wedi paru’r Egwyddorion Buddsoddi â deilliannau’r Goedwig Genedlaethol. Dywedwch wrthym sut rydych chi'n bodloni 3 Deilliant Hanfodol y Goedwig Genedlaethol ac unrhyw un o'r deilliannau hynod ddymunol trwy ddarllen yr arweiniad isod. Nid oes angen ond i chi gwblhau'r adrannau hynny sy'n berthnasol i'ch prosiect.

Ceir rhagor o fanylion am ddeilliannau'r Goedwig Genedlaethol yn adran 'Sut rydym yn asesu'ch cais' yr Arweiniad Ymgeisio TWIG.

### Esboniwch sut fydd eich prosiect yn achub treftadaeth.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn arwain at goetiroedd cydnerth o ansawdd da, wedi’u dylunio a’u rheoli’n dda (deilliant 1 y Goedwig Genedlaethol).

[Maes testun – 500 gair]

### Esboniwch sut fydd eich prosiect yn diogelu'r amgylchedd.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn adfer cysylltedd rhwng safleoedd coetir neu'n cefnogi bioamrywiaeth (deilliant 4 y Goedwig Genedlaethol), a sut y bydd y camau y byddwch yn eu cymryd yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

[Maes testun – 500 gair]

### Esboniwch sut fydd eich prosiect yn cynyddu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwneud coetiroedd yn fwy croesawgar, hygyrch a deniadol i ymwelwyr. Sut fydd cymunedau'n cymryd rhan yn weithredol yn y prosiect? (deilliannau 2 a 3 y Goedwig Genedlaethol).

[Maes testun – 500 gair]

### Esboniwch sut fydd eich prosiect yn gwella'ch cynaladwyedd sefydliadol.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn creu safleoedd amlbwrpas, er enghraifft, sy'n cael eu defnyddio ar gyfer mentrau hamdden a lleol (deilliant 5 y Goedwig Genedlaethol). A yw eich prosiect yn cynnwys unrhyw elfennau sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi? (deilliant 6 y Goedwig Genedlaethol). Dylech gynnwys cynlluniau cefnogi neu gyflwyno sgiliau a hyfforddiant yma.

[Maes testun – 500 gair]

## Cyflwyno eich prosiect

### Pam mai eich sefydliad chi yw'r un gorau i gyflwyno'r prosiect hwn?

Dywedwch wrthym pam y dylai eich sefydliad chi'n benodol redeg y prosiect hwn.

Gall hyn gynnwys:

- unrhyw brofiad sydd gan eich sefydliad o redeg prosiectau tebyg
- gwybodaeth a sgiliau staff a/neu aelodau Bwrdd ac Ymddiriedolwyr
- capasiti eich sefydliad i gyflwyno'r prosiect ar yr un pryd â'ch gwaith arferol
- eich cysylltiadau â phrosiectau neu sefydliadau perthnasol eraill

[Maes testun – 500 gair]

### Sut fyddwch chi'n rheoli cyflwyniad eich prosiect?

Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn cael ei reoli o ddydd i ddydd ac am y bobl a fydd yn ymwneud ag ef.

Dylai hyn gynnwys dweud wrthym:

- bwy fydd yn gwneud penderfyniadau, profiad y bobl sy'n cymryd rhan a'u rolau yn y prosiect
- am swyddi staff, prentisiaid, hyfforddeiaethau, neu unrhyw gyfleoedd cyflogedig eraill, y bydd eich prosiect yn eu creu
- am unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli y bydd eich prosiect yn eu creu. Gwirfoddolwyr yw pobl sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu cyflwyno eich prosiect

- os ydych yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol i weithio ar y prosiect, dywedwch wrthym beth yw eu cymwysterau ar gyfer y rôl

Cofiwch, rhaid i chi hysbysebu pob swydd staff newydd yn agored, oni bai eich bod yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol i weithio ar y prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

## A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?

Os Bydd, dywedwch wrthym pwy yw eich partneriaid, natur eich partneriaethau a sut y byddwch yn gweithio ar y cyd.

Hoffem weld eich cytundeb partneriaeth os ydych yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect. Os oes gennych un, gallwch ei uwchlwytho yma.

Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Nid oes angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod sefydliad arall yn cyflwyno rhan sylweddol o'ch prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

## Sut fyddwch chi'n gwerthuso eich prosiect?

Rhaid i chi werthuso eich prosiect a darparu adroddiad gwerthuso ysgrifenedig ar ôl i chi orffen eich prosiect.

Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Braslun yw hwn o sut y byddwch yn cywain data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn y pen draw i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni.

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gwneud eich gwerthusiad. Gallai hyn fod yn staff yn eich sefydliad neu'n unigolyn neu sefydliad y bydd angen i chi ei gyflogi. Dylech ddarparu brîff ar gyfer y gwaith hwn fel dogfen ategol.

Byddem yn disgwyl gweld costau ar gyfer eich gwerthusiad wedi'u cynnwys yn eich costau prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

## A fydd unrhyw ran o'ch prosiect yn digwydd yng Nghymru?

Atebwch Bydd. Rhaid i'ch prosiect ddigwydd yng Nghymru i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen TWIG.

Rhaid i chi gynnwys y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect, a chofiwch sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

### Dywedwch wrthym am unrhyw heriau allweddol neu risgiau posibl i'ch prosiect yr ydych wedi'u nodi.

Rydym yn gwybod bod pob prosiect yn wynebu heriau a risgiau. Dywedwch wrthym am yr heriau neu'r risgiau yr ydych wedi'u nodi, a allai effeithio ar eich prosiect.

Dylai eich cofrestr risgiau ddarparu gwybodaeth fanylach am yr heriau neu'r risgiau hyn a sut y byddwch yn eu rheoli.

Byddem yn disgwyl gweld cronfa wrth gefn yn eich costau prosiect i helpu rheoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd.

[Maes testun – 500 gair]

## Costau prosiect

### Dywedwch wrthym faint y bydd yn ei gostio i gyflwyno eich prosiect

Dylech gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

Cyfeiriwch at adran “Pa gostau allwch chi wneud cais amdanynt?” yr arweiniad ymgeisio TWIG. Cofiwch y gellir defnyddio uchafswm o 25% o'r grant hwn fel arian refeniw.  Ar ben hynny, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio'r prosiect a chostau gweithredu prosiect uniongyrchol eraill.

Cofiwch gynnwys costau cyfieithu Cymraeg, gwerthuso, cydnabyddiaeth, swm wrth gefn a chostau cynnal a chadw ar ôl y prosiect os ydych yn plannu coed.

Llenwch ac uwchlwythwch dempled Costau'r Rhaglen TWIG sydd ar gael ar y dudalen templedi TWIG. Mae'r ddogfen hon yn orfodol a bydd yn rhoi dadansoddiad manylach o'r costau refeniw a chyfalaf sy'n ofynnol gyda'ch cais.
Bydd angen i chi ychwanegu cost newydd ar gyfer pob cost prosiect wahanol.

Er enghraifft, os ydych yn recriwtio tri aelod staff newydd i reoli'ch prosiect, bydd angen i chi ychwanegu tair cost staff newydd wahanol.

Bydd angen i bob cost fod â'i disgrifiad a'i swm ei hun.

Os ydych yn hawlio TAW ar unrhyw un o'ch costau prosiect, cofiwch sicrhau'n gyntaf na ellir ei hadennill trwy ffynonellau eraill. Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

### A ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau arian parod i gefnogi eich prosiect?

Cyfraniadau arian parod yw cronfeydd eraill y disgwyliwch eu derbyn tuag at gost eich prosiect. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniad arian parod gan eich sefydliad eich hun.

Os ydym: Uwchlwythwch dystiolaeth. Gallai hwn fod yn llythyr yn cadarnhau'r cynnig neu'n gopi o gyfriflenni banc yn dangos yr arian yn eich cyfrif.

### A ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i gefnogi eich prosiect?

Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod yw pethau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes angen i chi dalu amdanynt.

Er enghraifft, defnyddio ystafell mewn busnes lleol, neu ddeunyddiau a roddir gan gwmni lleol.

Rhowch amcangyfrif o faint y byddai hyn wedi'i gostio os oedd angen i'ch prosiect dalu amdano.

## Dogfennau ategol

Bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol a amlinellir yn yr adran hon fel rhan o'r broses ymgeisio. Gofynnir i chi lawrlwytho a chwblhau'r templedi angenrheidiol yma fel rhan o'ch cais.

Rhaid i chi ddarparu'r dogfennau gorfodol a ganlyn:

- dogfen lywodraethu (oni bai eich bod wedi'ch eithrio)
- gwybodaeth cyfrifon
- cynllun prosiect, gan gynnwys rhestr wirio caniatadau, cofrestr risgiau a rhestr wirio mesur llwyddiant
- templed costau
- dogfennau perchnogaeth tir (Cofrestrfa Tir, neu les neu Benawdau Telerau)
- map o'r safle
- tystiolaeth o ymgeisio am ganiatadau

Yn ychwanegol at y dogfennau gorfodol, gallwch gynnwys y dogfennau canlynol lle bo'n berthnasol hefyd:

- Cynllun Rheoli Coetir (**gorfodol** os yw eisoes yn bodoli)
- cytundeb partneriaeth (**gorfodol** os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)

- disgrifiadau swydd (**gorfodol** os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o’ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)
- cyfrifiadau Adennill Costau Llawn (os yn berthnasol)
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)
- delweddau o'r wefan (dewisol)

**Pwysig:** Mae ein rhaglen TWIG yn defnyddio ein ffurflen gais safonol, a bydd angen i chi uwchlwytho rhai o'ch dogfennau ategol o dan yr adran 'Tystiolaeth o gefnogaeth'. gallwch uwchlwytho hyd at 6 dogfen o dan yr adran hon. Sicrhewch eich bod yn defnyddio enwau ffeiliau sydd wedi'u labelu'n glir.

## Cyfrifon

Uwchlwythwch gyfrifon eich sefydliad.

Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd.

Mae angen i gyfrifon fod:

- yn enw cyfreithiol eich sefydliad
- â dyddiad arnynt
- â llofnod mewn llawysgrifen. Nid yw hyn yn cynnwys llofnodion digidol
- â theitl y sawl sy'n eu llofnodi arnynt. Rhaid i'r person hwn fod yn gyfarwyddwr, ymddiriedolwr, cyfrifydd, neu berson uwch arall yn eich sefydliad

Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis, rhaid hefyd i chi ddarparu tri mis o'ch cyfriflenni banc diweddaraf. Dylai hyn fod y tri mis cyn y dyddiad yr ydych yn cyflwyno'ch cais.

Os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nid oes gennych set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf, neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau bod eich sefydliad wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus, er enghraifft awdurdod lleol neu brifysgol.

Uwchlwytho eich cyfrifon [Dewis ffeil]

## Cynllun prosiect, gan gynnwys rhestr wirio caniatadau, cofrestr risgiau a rhestr wirio mesur llwyddiant

Ar gyfer y rhaglen TWIG, rydym wedi cyfuno'r cynllun prosiect, y rhestr wirio caniatadau, y rhestr wirio mesur llwyddiant a'r gofrestr risgiau mewn un ddogfen i chi ei chwblhau a'i chyflwyno. Dylech lawrlwytho'r ddogfen hon o'n tudalen templedi a chyflwyno'r ddogfen wedi'i chwblhau gyda'ch cais.

### Cynllun Prosiect

Dylai'r cynllun prosiect ddarparu gwybodaeth fanwl am y tasgau y gwnaethoch eu hamlinellu yn eich cais.

Ar gyfer pob tasg, gwnewch hi'n CAMPUS:

- cyraeddadwy
- amserol
- mesuradwy
- uchelgeisiol
- synhwyrol

**Gosod allan eich cynllun prosiect**

Rydym yn argymell bod eich cynllun prosiect mewn trefn gronolegol. Dyma le y byddwch yn dweud wrthym am y pethau y bydd eich prosiect yn eu gwneud ac yn eu cynhyrchu. Dywedwch wrthym beth fydd allbynnau eich prosiect a phwy fydd yn cymryd rhan ynddo. Dylech gynnwys rhifau lle bo modd.

Dylai'r cynllun prosiect ganolbwyntio ar y tasgau y mae'n rhaid eu cwblhau i wneud y prosiect yn llwyddiant. Dylech gynnwys yr holl weithgareddau a cherrig milltir allweddol yr ydych yn gobeithio eu cyflawni.

Pan gaiff ei lenwi, dylai'r tabl roi cynllun realistig i chi a'ch cydweithwyr ar gyfer cyflawni eich prosiect.?Fodd bynnag, rydym yn deall bod y cynllun yn debygol o newid a gwella wrth i'ch prosiect ddatblygu.

Byddwn yn gofyn i chi gywain data drwy gydol eich prosiect i fesur llwyddiant eich cynlluniau ac yn gofyn i chi fyfyrio arnynt yn eich gwerthusiad prosiect.

Uwchlwythwch eich cynllun prosiect, gan gynnwys y rhestr wirio caniatadau a'r gofrestr risgiau. Dylai hwn gael ei lawrlwytho o'n tudalen templedi a'i gwblhau.

**Rhestr wirio caniatadau a rhestr wirio Mesur Llwyddiant**

Ar gyfer y rhaglen TWIG, gofynnwn i chi ddarparu manylion y caniatadau angenrheidiol sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich prosiect gan yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), neu gyrff eraill fel Cadw. Os nad yw'r caniatadau hyn wedi'u sicrhau, mae angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais amdanynt yn eich dogfennau ategol.

Bydd y rhestr wirio Mesur Llwyddiant yn ein helpu i werthuso cynnydd tuag at dargedau'r Goedwig Genedlaethol. Cwblhewch yr wybodaeth ar y tab hwn.

**Cofrestr Risgiau**

Mae cofrestr risgiau'n ddogfen, fel arfer wedi'i llunio fel tabl, sy'n rhestru'r holl risgiau a nodwyd gan sefydliad ac wedi'u blaenoriaethu yn nhrefn pwysigrwydd.

Rydym yn gwybod bod pob prosiect yn wynebu heriau a risgiau. Byddwn am weld pa risgiau yr ydych wedi'u hystyried, yr effaith y byddai'r risg yn ei chael ar eich prosiect a sut y byddech yn cynllunio i reoli pob risg.

Ar gyfer pob risg, amlinellwch:

- natur y risg, er enghraifft technegol, marchnad, ariannol, economaidd, rheoli, cyfreithiol
- disgrifiad o'r risg
- y cyfle y bydd y risg yn digwydd, gan ddefnyddio gwerth canrannol neu radd isel, canolig neu uchel
- yr effaith y gallai'r risg ei chael ar gostau, amser ac ansawdd y prosiect
- yr effaith gyffredinol y gallai'r risg ei chael ar gyflwyno'r prosiect
- sut y byddech yn rheoli'r risg

Uwchlwytho eich cynllun prosiect a'ch cofrestr risgiau [Dewis ffeiliau]

## Disgrifiadau swydd

Uwchlwythwch ddisgrifiadau swydd ar gyfer unrhyw staff neu brentisiaid newydd (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Os ydych yn symud aelod presennol o staff i rôl ar y prosiect, neu'n ymestyn ei oriau i gefnogi'r prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd o hyd.

Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

Uwchlwytho unrhyw ddisgrifiadau swydd [Dewis ffeil]

## Briffiau

Uwchlwythwch friffiau ar gyfer unrhyw waith a gomisiynir (os yn berthnasol)

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith yr ydych yn bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich prosiect.

Os ydych yn comisiynu gwaith, er enghraifft gan ecolegydd, dylech ddarparu brîff. Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y bydd yn ei gymryd, a faint y bydd yn ei gostio.

Gallwch chi ddod o hyd i dempled o frîff ar ein gwefan.

Uwchlwytho unrhyw friffiau ar gyfer gwaith [Dewis ffeil]

## Adennill costau llawn

Uwchlwythwch gyfrifiadau ar gyfer adennill costau llawn (os yn berthnasol)

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yng nghostau eich prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn.

Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod staff presennol, ar yr amod nad yw'n gweithio'n gyfan gwbl ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd.

Uwchlwytho eich cyfrifiad adennill costau llawn [Dewis ffeil]

### Delweddau

Uwchlwythwch ddelweddau o'r prosiect (os yn berthnasol)

Darparwch hyd at chwe delwedd sy'n helpu rhoi darlun o'ch prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- delwedd o fap o'r ardal yn dangos y lleoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect, os yw'n digwydd ar draws mwy nag un lle neu ar draws ardal eang.

Gwnewch yn si?r bod gennych bob caniatâd sydd ei angen i rannu'r delweddau hyn gyda ni, gan y byddwn o bosibl yn defnyddio'r rhain i ddweud wrth bobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio unrhyw ddelweddau a anfonwch atom i hyrwyddo'ch prosiect yn gyhoeddus.

Uwchlwytho unrhyw ddelweddau [Dewis ffeil]

### Tystiolaeth o gefnogaeth

Defnyddiwch yr adran hon i uwchlwytho unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol sy'n benodol i TWIG. Mae'r dogfennau gorfodol y dylech eu huwchlwytho yma yn cynnwys:

- templed costau
- Cynllun Rheoli Coetir (**gorfodol** os yw eisoes yn bodoli)
- tystiolaeth o ganiatadau (e.e. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, trwyddedau cwympo coed, caniatadau cynllunio). Os nad yw'r rhain wedi'u sicrhau, atodwch dystiolaeth eich bod wedi gwneud cais amdanynt.

Gallwch uwchlwytho hyd at chwe dogfen ychwanegol.

Uwchlwytho unrhyw dystiolaeth o gefnogaeth [Dewis ffeil]

## Gwirio eich atebion

Caiff crynodeb o'ch holl atebion ei ddangos i chi.

Bydd gennych yr opsiwn hefyd i fynd yn ôl a newid ateb os oes angen.

### Cadarnhau'r datganiad

Gofynnir i chi ddarllen ein datganiad a chytuno iddo.

Gan eich bod chi nawr yn hapus gyda'ch cais, rydych yn barod i wneud cais am ariannu.

Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr ansoddol i'n helpu datblygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Gallai hyn amrywio o arolwg 20 munud i gyfweliad 2 awr.

Ticiwch y blwch hwn os hoffech gymryd rhan yn ein hymchwil, neu i gael mwy o wybodaeth. [Blwch ticio]

Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ticiwch y blwch os hoffech gael eich hysbysu am ein gwaith [Blwch ticio]

Rwyf wedi darllen y datganiad ac yn cytuno iddo. [Blwch ticio]

## Datganiad

a) Diogelu Data

Rydym yn ymrwymedig i fod mor agored a thryloyw â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir yngl?n â sut rydym yn asesu ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau a sut y byddwn yn defnyddio eich ffurflen gais a'r dogfennau eraill rydych yn eu rhoi i ni. Rydym yn dilyn yr holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data sy'n berthnasol ac mewn grym o bryd i'w gilydd (y 'ddeddfwriaeth Diogelu Data'). Fel y diffinnir gan y ddeddfwriaeth Diogelu Data mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn rheolydd data. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ein Swyddog Diogelu Data. Gellir dod o hyd iddo ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Fel rhan o'r broses ymgeisio byddwn yn casglu eich enw, gwybodaeth gyswllt a swydd yn y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn ogystal ag unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol rydych yn ei darparu amdanoch chi eich hun neu am bobl eraill sy'n ymwneud â'ch prosiect. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth hon gydag un o'r ymgynghorwyr ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi os byddant yn cael eu penodi i roi cefnogaeth i chi ar eich prosiect. Nid ydym yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE.

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch ffurflen gais a dogfennau eraill a roddwch i ni, a'r data sydd wedi'i gynnwys ynddynt, i:

- Benderfynu a fyddwn ni'n rhoi grant i chi.
- Darparu copïau i unigolion neu sefydliadau eraill sy'n helpu ni i asesu, monitro a gwerthuso grantiau.
- Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda ni sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri Genedlaethol neu raglenni ariannu penodol.
- Cadw mewn cronfa ddata a defnyddio at ddibenion ystadegol.
- Os byddwn ni'n cynnig grant i chi, byddwn ni'n cyhoeddi gwybodaeth amdanoch chi sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rydym wedi'i ariannu, gan gynnwys swm y grant a'r gweithgaredd yr oedd i dalu amdano. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn ein datganiadau i'r

wasg, yn ein cyhoeddiadau printiedig ac ar-lein, ac yng nghyhoeddiadau neu ar wefannau adrannau llywodraeth perthnasol ac unrhyw sefydliadau partner sydd wedi ariannu'r gweithgaredd gyda ni.
- Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwch yn cefnogi ein gwaith o ddangos gwerth treftadaeth drwy gyfrannu (pan ofynnir i chi) at weithgareddau cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod y byddwn yn darparu ariannu ar ei gyfer a chymryd rhan mewn gweithgareddau i rannu dysgu, y byddwn o bosibl yn cysylltu grantïon eraill â chi i wneud hynny. Gall hyn gynnwys rhannu eich gwybodaeth ac unrhyw gyhoeddusrwydd dilynol gyda dosbarthwyr partner trydydd parti.

b) Rhyddid Gwybodaeth

Fel sefydliad cyhoeddus rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 sy’n rhoi hawl mynediad i’r cyhoedd i’r wybodaeth a ddaliwn, oni bai bod unrhyw eithriadau'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gofnodedig a ddarparwyd i ni gan ein hymgeiswyr a grantïon.

Pan fyddwch yn cwblhau'r Datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych yn cadarnhau nad oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad i ni ryddhau'r ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch i ni i unrhyw un sy'n gofyn am weld nhw ar ôl i'ch cais gwblhau'r broses asesu. Os oes unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau iddi fod ar gael yn gyhoeddus, gofynnir i chi esbonio eich rhesymau isod:

[Blwch testun]

Os byddwn yn derbyn cais am wybodaeth byddwn bob amser yn ymgynghori â chi'n gyntaf ac yn cymryd eich sylwadau i ystyriaeth, a byddwn yn cymhwyso’r eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Fodd bynnag, ni sy'n penderfynu a fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth neu'n ei dal yn ôl ac ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yr ydych yn ei ddioddef o ganlyniad i ni gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

- Cadarnhaf fod y sefydliad sydd wedi'i enwi ar y cais hwn wedi rhoi'r awdurdod i mi gwblhau'r cais hwn ar ei ran.
- Cadarnhaf fod y gweithgaredd yn y cais yn dod o dan ddibenion a phwerau cyfreithiol y sefydliad.
- Cadarnhaf fod gan y sefydliad y p?er, os dyfernir grant iddo, i dderbyn y grant ac i'w dalu'n ôl.
- Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn y cais hwn yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- Rwy’n cydsynio i’m data personol gael ei ddefnyddio fel y disgrifir ac yn deall os bydd y gofyniad yn newid o’r hyn a ddisgrifiwyd y byddaf yn cael gwybod am hynny mor fuan â phosibl.

## Cyflwyno'r cais

Mae eich cais wedi cael ei gyflwyno!

## Beth sy'n digwydd nesaf?

1. Byddwn yn anfon e-bost atoch cyn bo hir gyda rhif cyfeirnod prosiect.
2. Byddwn yn gwirio'ch cais a'r wybodaeth a ddarparwyd, i sicrhau bod gennym bopeth sydd ei angen arnom i asesu'ch cais. Bydd hyn yn cynnwys gwirio eich bod wedi darparu'r holl ddogfennau ategol priodol.
3. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth neu ddogfennau os bydd angen.
4. Byddwn yn gwirio eich cais ac unwaith y bydd gennym bopeth sydd ei angen arnom i asesu eich cais, byddwn yn rhoi ein penderfyniad i chi tua diwedd mis Hydref 2025.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Templedi: Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) (rownd 6)

06/05/2025
06/05/2025
See all updates
Defnyddiwch y templedi hyn i helpu i baratoi eich cais i'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) (rownd 6).

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| Cost template | 7.1 KB |
| Templed cynllun prosiect, gan gynnwys rhestr wirio caniatâdau, cofrestr risgiau a rhestr wirio i fesur llwyddiant | 27.34 KB |
| Project plan, including consents checklist, risk register and measuring success checklist template | 30.46 KB |
| Templed dadansoddiad cost | 7.43 KB |

# Cwestiynau Cyffredin: Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd chwech)

See all updates
Atebion i gwestiynau a godwyd gan fynychwyr gweminar cyn-ymgeisio Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd chwech), a gynhaliwyd ddydd Iau 15 Mai 2025.

Cododd y rhai a fynychodd y weminar gyfres o gwestiynau, yr ydym wedi’u hateb isod.

Gellir dod o hyd i atebion i nifer o gwestiynau a godwyd hefyd trwy ddarllen yr arweiniad.

# Cyffredinol/Cymhwysedd

## Allwch chi wneud cais os ydych chi eisoes yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol?

Gallwch.

## Allwch chi wneud cais os ydych chi wedi cael eich ariannu gan TWIG o'r blaen?

Gallwch.

## A fyddai coetiroedd heb fynediad cyhoeddus yn cael eu hystyried os yw'r prosiect yn cynnwys y gymuned mewn ffyrdd eraill (er enghraifft diwrnodau gweithdy, teithiau cerdded bywyd gwyllt tywysedig, diwrnodau rheoli gwirfoddolwyr)?

Rhan allweddol o raglen y Goedwig Genedlaethol yw cyflawni hygyrchedd i goetiroedd ar draws Cymru er mwyn i bawb eu mwynhau. O ran TWIG, mae 'Coetiroedd sy'n Hygyrch i Bobl' yn ddeilliant hanfodol ac felly dylai eich prosiect ystyried sut y bydd yn cyflawni'r canlyniad hwnnw. Gallwch gynnwys gweithgareddau wedi'u targedu a'u rheoli fel gweithdai a theithiau cerdded tywysedig, ond dylech ystyried amlder a chynaladwyedd hirdymor y digwyddiadau hyn ac a yw lefel y mynediad i'r cyhoedd yn gymesur â'r cais am grant.

## A allai sefydliad wneud cais am grant a bod yn berchennog tir hefyd ar ardal cais arall sy'n cael ei wneud gan sefydliad arall?

Gallai, ond byddai angen i berchennog y tir fod yn rhwym i'r contract grant. Os yw gwaith ar draws y ddau brosiect yn digwydd yn yr un ardal, bydd angen i chi sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu. Dylech ystyried a yw'n fwy priodol gwneud cais fel partneriaeth ar gyfer un prosiect, yn enwedig os oes cyfleoedd i wella cysylltedd coetiroedd.

## A fyddai'r grant hwn yn cyfrif fel cymhorthdal?

Fe'ch cynghorir i geisio cyngor annibynnol ar reoli cymhorthdal mewn perthynas â'ch prosiect, ond mae'n annhebygol y byddai'r grant yn cael ei ystyried yn gymhorthdal. Gallwch ddysgu mwy am reoli cymhorthdal yn adran Gofynion cyfreithiol a pholisi arweiniad y rhaglen.

## A allwn ni gyflwyno Ymholiad Prosiect sy'n cynnwys mwy nag un safle?

Gallwch, gall prosiectau gynnwys mwy nag un safle os oes sail resymegol glir dros eu cynnwys, er enghraifft cynllun i wella cysylltedd a mynediad rhwng dau goetir. Ni ddylai ceisiadau gynnwys nifer o safleoedd datgysylltiedig.

### Os ydych chi'n gwneud cais am nifer o goetiroedd, a oes cyfyngiad ar bellter o ran cysylltedd?

Nid oes pellter penodol ar gyfer cysylltedd rhwng safleoedd, ond byddem yn eich cynghori i ystyried y sail resymegol dros y gwahanol safleoedd rydych chi'n canolbwyntio arnynt.

### Rydym yn ystyried cais am Grant Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect arall nad yw'n gysylltiedig â'r grant hwn. A fyddai modd i ni wneud cais am y ddau?

Gallwch wneud cais am arian TWIG a Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, ond rhaid i chi sicrhau eu bod ar gyfer prosiectau ar wahân. Ni ddylech wneud cais i'r ddwy gronfa am yr un prosiect.

## Adeiladau

### A fyddai adnewyddu adeilad presennol i'w ailddefnyddio fel ystafell ddosbarth neu ofod defnydd cymunedol yn dderbyniol?

Gallwn gefnogi costau ar gyfer gwaith adeiladu ar raddfa lai i gefnogi gweithgareddau prosiect, ond ni ddylai hyn ffurfio'r mwyafrif o gostau eich prosiect.

## Swyddi/Cyflogau/Hyfforddiant

### A all TWIG dalu am gyflogau?

Gall, mae'r ariannu'n gallu talu am gyflogau staff newydd, ond nid aelodau staff presennol oni bai eich bod yn ymestyn oriau aelod staff rhan-amser i weithio ar y prosiect.

### A ellir ariannu hyfforddiant sgiliau (er enghraifft cyrsiau llif gadwyn)?

Gellir, mae modd cynnwys hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr i gefnogi gwaith cyfalaf a gweithgareddau.

## Costau

### A fyddai is-gontractwr yn dod o dan y gost refeniw neu gyfalaf 25%?

Mae'n dibynnu ar ba waith y mae'r contractwr yn ei wneud. Os yw'n waith ffisegol ar y safle, byddai'n cael ei ddosbarthu'n gostau cyfalaf. Byddai is-gontractwr sy'n gweithio ar hyrwyddo neu werthuso prosiect yn cael ei ddosbarthu'n gost refeniw.

## Trwyddedau/Caniatadau

### A fyddai unrhyw gynllun rheoli a ariennir yn cynnwys trwydded torri coed neu a oes angen gwneud cais am hyn yn annibynnol?

Dylai'r cynllun Rheoli Coetir ddisgrifio sut y bydd y safle'n cael ei reoli yn y dyfodol. Byddai angen gwneud cais am drwydded torri coed ar wahân.

### Os oes angen trwydded torri coed arnom, er enghraifft, ar gyfer rhan o waith y prosiect, a allwn ni ddechrau ar elfennau eraill o'r prosiect wrth i ni aros am y caniatâd?

Ni ddylech ddechrau ar y gwaith cyn i ni roi caniatâd i chi wneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn ofynnol i chi sicrhau pob caniatâd cyn dechrau. Os cewch eich gwahodd i wneud cais, rydym yn argymell gwneud cais am yr holl ganiatadau a chydsyniadau angenrheidiol mor gynnar â phosibl er mwyn lleihau oedi.

## Adennill costau llawn

### Beth mae 'Adennill costau llawn' yn ei olygu?

Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol (er enghraifft, efallai bod gennych fwrdd ymddiriedolwyr ac wedi'ch ariannu gan grantiau a rhoddion), gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad ar ffurf adennill costau llawn.

Mae adennill costau llawn yn golygu sicrhau ariannu ar gyfer yr holl gostau sydd ynghlwm wrth redeg prosiect. Mae hyn yn golygu y gallwch ofyn i gostau prosiect uniongyrchol gael eu hariannu yn ogystal â chyfran gymesur o gostau sefydlog eich sefydliad. Gall hyn gynnwys costau sy’n cefnogi’r prosiect yn rhannol ond sydd hefyd yn cefnogi prosiectau neu weithgareddau eraill y mae eich sefydliad yn eu darparu, megis cyflogau staff sy’n gweithio ar draws prosiectau ym meysydd gweinyddu, rheoli, AD, neu godi arian, costau swyddfa fel rhent neu gyfleustodau a ffioedd cyfreithiol neu archwilio.

Mae arweiniad cydnabyddedig ar gyfrifo’r swm adennill costau llawn sy’n berthnasol i’ch prosiect ar gael gan sefydliadau megis Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

## Plannu

### A fyddai ailblannu planhigfeydd sydd wedi’u difrodi gan stormydd (o dan 2 hectar) gyda choetir collddail fel rhan o greu ardal o goetir hygyrch yn gymwys i gael ei ariannu?

Na fyddai, nid yw hyn yn gost gymwys . Ni allwn ariannu ailstocio safleoedd.

### A oes rhestr rywogaethau gytunedig o ba goed y gellir eu plannu?

Nid ydym yn darparu rhestrau rhywogaethau. Fodd bynnag, gall Rhaglen y Goedwig Genedlaethol ddarparu un os caiff eich prosiect ei ariannu.

### Oes rhestr gytunedig o blanhigfeydd y gallwn brynu coed ganddynt?

Nac oes, nid ydym yn darparu rhestrau o blanhigfeydd, contractwyr na chyflenwyr cymeradwy.

### A yw plannu coed trefol yn cynnwys coed stryd, gyda phyllau plannu ac ati?

Mae TWIG yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar goetiroedd. Rhaid i chi sicrhau bod eich prosiect yn bodloni o leiaf tri deilliant hanfodol y Goedwig Genedlaethol. Gallai plannu coed gynnwys gwaith i wella cysylltedd safleoedd (megis coridor o wrychoedd neu goed), felly os byddai maint bach o blannu stryd yn cyd-fynd â'r agwedd honno, gallai fod yn gymwys fel rhan o brosiect ehangach sy'n bodloni canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol.

### A ellir cynnwys costau ar gyfer mynd i'r afael â Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS)?

Gallwch, mae modd cynnwys cost rheoli INNS fel rhan o'ch prosiect TWIG.

### A allem ni gynnwys plannu/gwella isdyfiant gyda phlanhigion brodorol?

Gallai, mae'n bosibl i blannu isdyfiant gyda phlanhigion brodorol fod yn rhan o waith gwella coetir. Rydym yn argymell i chi gysylltu â'ch Swyddog Cyswllt Coetiroedd i drafod addasrwydd y gwaith hwn.

### Oes gennych drothwy o ran lleiafswm arwynebedd/maint ar gyfer plannu coetir newydd?

Nac oes, nid oes lleiafswm maint ar gyfer plannu newydd.

### Gofyniad sensitifrwydd isel: beth os yw eich safle hyd at 2 hectar ac mae ganddo gymysgedd o ardaloedd sensitifrwydd isel ac ardaloedd o sensitifrwydd uwch?

Bydd unrhyw ardaloedd plannu nad ydynt yn cael eu hystyried yn sensitifrwydd isel yn ddarostyngedig i'r gofyniad i wneud cais i Gynllun Cynllunio Creu Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Os ydych chi'n ansicr, cysylltwch â'ch Swyddog Cyswllt Coetiroedd.

# Derbyn eich grant: Grant Buddsoddi mewn Coetir (rownd 6)

See all updates

Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio sut y byddwch yn derbyn eich grant. Mae hefyd yn esbonio beth rydym yn ei ddisgwyl gennych cyn, yn ystod ac ar ôl ei dderbyn.

# Cyflwyniad

Mae’r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) yn rhaglen i dirfeddianwyr greu coetiroedd i gymunedau lleol eu defnyddio a’u mwynhau, fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae’n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ar ôl i grant gael ei ddyfarnu i chi, mae'n bwysig deall y camau nesaf y mae'n rhaid i chi eu cymryd. Mae’r arian y byddwch yn ei dderbyn yn arian cyhoeddus gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau y caiff ei reoli mewn ffordd atebol.

Trwy ddarllen a deall y gofynion a amlinellir yn yr arweiniad hwn, eich cais wedi'i gwblhau, yr arweiniad ymgeisio a'r telerau ac amodau (gan gynnwys ein diffiniadau), gallwch fod yn si?r y bydd eich prosiect yn cydymffurfio â'n gofynion.

Ar ôl darllen y dogfennau hyn, os oes gennych gwestiynau neu bryderon sydd heb eu hateb, cysylltwch â ni am gefnogaeth bellach. Eich pwynt cyswllt cyntaf â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw eich Rheolwr Buddsoddi.

Mae'r holl arweiniad ar gael yn adrannau Ariannu ac Arweiniad arfer da y wefan.

# Llinell amser y prosiect

1. rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect cyn y gallwch gytuno i'ch grant
2. cytunwch i'ch telerau grant o fewn **chwe mis** o'r dyddiad y gwnaethoch dderbyn yr e-bost yn gofyn i chi wneud hynny
3. cyflwynwch weithgaredd eich prosiect
4. cyflwyno adroddiad cwblhau a gwerthusiad prosiect cyn Dyddiad Dod i Ben y Grant sef 31 Rhagfyr 2027.
5. cydymffurfiwch â'r telerau y cytunwyd arnynt am gyfnod eich contract grant

## Rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect

Ar ôl i ni ddweud wrthych bod grant wedi cael ei ddyfarnu i chi, byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif a rhoi mwy o wybodaeth i ni am eich prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cwestiynau am:

- swyddi a chyfleoedd hyfforddi a fydd yn cael eu cefnogi drwy eich prosiect
- unrhyw wirfoddolwyr neu ymwelwyr a allai fod gan eich prosiect
- effaith amgylcheddol eich prosiect
- sut byddwch yn cydnabod ac yn hyrwyddo eich grant

Nid yw'r cwestiynau hyn yn rhan o'ch cais - ni fydd eich atebion yn effeithio ar eich dyfarniad grant. Gofynnwn y cwestiynau hyn i helpu i gasglu data ar effaith ein cyllid. Rydym yn casglu tystiolaeth o bob rhan o'n portffolio i helpu i lywio ein hymarfer a sut rydym yn cyflwyno ein strategaeth.

I’ch helpu i ateb y cwestiynau ychwanegol hyn am eich prosiect, darllenwch y canllaw a’r cwestiynau Rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect.

Bydd angen i chi gwblhau'r dasg hon cyn y gallwch gytuno i delerau eich grant a dechrau eich prosiect.

## Cytuno i'r telerau ac amodau

Ar ôl i chi roi mwy o wybodaeth i ni am eich prosiect, byddwch yn derbyn e-bost yn eich gwahodd i fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein i wirio a chytuno i fanylion eich prosiect a llofnodi telerau ac amodau eich grant.

I gytuno i'r grant, bydd angen i chi:

- wirio bod y manylion sydd gennym am eich prosiect yn gywir
- anfon unrhyw dystiolaeth newydd ar gyfer eich prosiect atom, er enghraifft cyfraniadau arian parod, caniatadau neu drwyddedau
- ddweud wrthym a fu unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect ers i chi gyflwyno eich cais, er enghraifft newidiadau i bartneriaid y prosiect neu gyfraniadau arian parod
- rhoi manylion dau lofnodai cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad i ni, fel y gallwn anfon dolen atynt i lawrlwytho, darllen, llofnodi ac uwchlwytho’r telerau ac amodau. Os mai chi yw'r llofnodwr cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad, byddwch yn cael eich tywys yn syth i'r broses telerau ac amodau yn y cam hwn heb fod angen e-bost.
- lawrlwytho, darllen a llofnodi'r telerau ac amodau

Bydd angen hefyd i chi anfon y canlynol atom, os yn berthnasol:

- Prawf o berchnogaeth ar eiddo gan gynnwys, er enghraifft, copïau diweddar o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda chynllun), lesau a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol. Os nad yw'r enw ar y dogfennau perchnogaeth hyn yn cyfateb yn union i enw'ch sefydliad, rhowch wybod i ni cyn i chi gytuno i'r telerau ac amodau fel y gallwn ei ddiweddaru.
- cynllun prosiect a chofrestr risgiau wedi'u diweddaru os bu newidiadau sylweddol i'ch prosiect ers i chi wneud eich cais am grant
- rhagolwg llif arian parod y prosiect, yn dangos pryd y disgwyliwch dderbyn unrhyw gyfraniadau arian parod a thaliadau grant
- strwythur rheoli prosiect a dulliau o ddewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr

Cyn i ni allu prosesu eich telerau ac amodau, bydd angen i chi fod wedi gwneud y canlynol, os yn berthnasol:

- sicrhau'r holl gyfraniadau arian parod, caniatadau statudol ac unrhyw drwyddedau angenrheidiol
- bodloni ein gofynion o ran perchnogaeth

Rhaid i chi gyflwyno'r wybodaeth hon o fewn chwe mis i dderbyn yr e-bost.

Er bod gennym gontract safonol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, mae'n bosibl y byddwn yn amrywio ein prosesau a’n telerau gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol eich prosiect. Os yn

berthnasol, byddwch yn cael gwybod am unrhyw delerau ychwanegol yn y cam hwn.

Unwaith y byddwn wedi prosesu’r wybodaeth rydych wedi'i darparu, byddwn yn cadarnhau hyn i chi mewn e-bost. Yna gallwch chi ddechrau gweithio ar eich prosiect. Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar eich prosiect hyd nes y byddwch wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gennym i wneud hynny. Os byddwch yn dechrau unrhyw waith cyn cael y caniatâd hwn, fe fydd ar eich menter eich hun.

## Sut y byddwn yn talu eich grant

Ar ôl i chi gytuno i delerau'r grant, gofynnir i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein i ddarparu eich manylion banc.

Unwaith y byddwch wedi darparu eich manylion banc a'u bod wedi'u gwirio gennym, mae'r taliad cyntaf yn cael ei brosesu a thelir 50% o'r grant i'r cyfrif banc y gwnaethoch ddarparu manylion amdano.

Ar ôl i chi wario'r 50% cyntaf o gostau eich prosiect, byddwch yn gallu cyflwyno cais am daliad ar-lein am y 30% nesaf o'ch grant. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos sut y gwariwyd y 50% cyntaf o gostau eich prosiect.

Byddwn yn talu'r 20% sy'n weddill o'ch grant mewn ôl-ddyledion unwaith y byddwch wedi gwario holl gostau eich prosiect. Rhaid i chi gyflwyno cais am daliad terfynol a thystiolaeth i ddangos sut y gwariwyd y taliad blaenorol o 30% o'ch grant. Rhaid i chi hefyd ddarparu'r adroddiad cwblhau, gwerthusiad a thystiolaeth o gydnabod y grant fel y cytunwyd yn eich contract.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais am daliad terfynol, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau gennych. Dylech felly gytuno ar eich cyfrifon terfynol gyda'ch contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad grant terfynol.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael treftadaeth, byddwn yn talu swm llawn y grant sydd ei angen ar gyfer y pryniant mewn un taliad.

Anelwn at ryddhau pob taliad grant o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais am daliad a'r dogfennau ategol gofynnol.

Os byddwch yn gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich prosiect yn cael ei gwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw arian gan y grant Loteri Genedlaethol a dalwyd i chi nad ydych wedi'i wario. Byddwn yn cytuno â chi ar y swm sydd i'w ddychwelyd fel rhan o gwblhau eich prosiect.

## Taliadau Cynnal a Chadw ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Rheoli Coetir

Bydd arnom angen cydnabyddiaeth ffurfiol ac ymrwymiad i'ch rhwymedigaethau mewn perthynas â darparu, rheoli a chynnal a chadw'r coetir y tu hwnt i oes y prosiect (am gyfnod o bum mlynedd) fel

y nodir yn y Cynllun Rheoli Coetir a ddylai fod ar waith cyn i'ch prosiect gael ei gwblhau.

Os ydych chi'n plannu coed, bydd un taliad i dalu am hyd at dair blynedd o waith cynnal a chadw ar ôl cwblhau'r prosiect yn cael ei dalu os oedd hyn wedi'i gynnwys yn eich cais. Mae taliadau cynnal a chadw ar gyfradd sefydlog fel a ganlyn:

- Blwyddyn 1: £400 yr hectar
- Blwyddyn 2: £300 yr hectar
- Blwyddyn 3: £250 yr hectar

Dylech glustnodi arian at y diben hwn drwy gydol eich prosiect hyd at y swm y cytunwyd arno a hawlio'r swm hwn ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Ni ddylai hyn fod yn fwy na'r swm y gofynnwyd amdano yn eich cais.

Wrth gwblhau'r prosiect bydd angen i chi anfon llythyr wedi'i lofnodi atom gan uwch aelod o staff sydd â throsolwg o'r gyllideb (e.e. Cyfarwyddwr Cyllid neu gyfwerth) gan gadarnhau bod y taliadau cynnal a chadw wedi'u clustnodi ar gyfer y cyfnod tair blynedd dilynol, sut y caiff y cronfeydd hyn eu gwario, a chan gadarnhau'r swm a glustnodwyd ar gyfer y gwaith hwn cyn y gallwn dalu'r taliad terfynol o'ch grant. Dylid cyflwyno cyfriflen banc fel tystiolaeth o hyn.

Ar ddiwedd y cyfnod tair blynedd efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth gennych bod y taliadau cynnal a chadw wedi'u gwario fel y nodir yn eich Cynllun Rheoli Coetir.

Disgwyliwn i chi gadw cofnodion o anfonebau a derbynebau i ddangos tystiolaeth o'r gwariant hwn ac mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi anfon y dystiolaeth atom i'w dilysu.

Fel gyda holl gostau eraill y prosiect, bydd eich taliadau grant yn adlewyrchu canran y grant y cytunwyd arni. Er enghraifft, os yw canran eich grant yn 100% a'ch bod yn rhoi £5,000 o'r neilltu, eich taliad grant fydd £5,000. Os yw canran eich grant yn 85% a'ch bod wedi rhoi £5,000 o'r neilltu, eich taliad grant fydd £4,250.

## Cwblhau eich prosiect

Rhaid i chi gwblhau eich prosiect a chyflwyno adroddiad cwblhau cyn Dyddiad Dod i Ben y Grant sef 31 Rhagfyr 2027.Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am ddiweddariadau ychwanegol ar eich cynnydd yn ystod oes eich prosiect. Byddwn yn eich hysbysu am yr amlder sy'n eich cefnogi orau ac sy'n adlewyrchu risg y prosiect.

Mae hyd yr amser y mae telerau eich contract grant yn berthnasol yn dibynnu ar y gweithgareddau craidd a gyflawnir yn eich prosiect.

Ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar **weithgareddau**, er enghraifft arddangosfa neu ddigwyddiad heb unrhyw allbynnau digidol neu waith cyfalaf, daw'r telerau ac amodau i ben ar ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Ar gyfer prosiectau sy'n creu allbynnau **digidol**, er enghraifft creu gwefan, mae'r telerau ac amodau'n berthnasol tan bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Os yw'r ymgeisydd arweiniol yn berchennog preifat ar dreftadaeth, bydd y telerau'n berthnasol am 10 mlynedd o

ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Ar gyfer prosiectau **cyfalaf**, er enghraifft adeiladu o'r newydd neu waith adfer, mae'r telerau'n berthnasol tan bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Os ydych yn unigolyn preifat neu'n sefydliad masnachol er-elw, bydd y telerau ac amodau'n berthnasol am 10 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â **phrynu** eitem treftadaeth, tir neu adeilad, bydd y telerau ac amodau'n berthnasol am gyfnod amhenodol. Os, yn y dyfodol, y byddwch am werthu, dinistrio neu waredu'r hyn yr ydych wedi'i brynu, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd a gallwn hawlio'ch grant cyfan neu ran ohono'n ôl neu ofyn am gyfran o'r enillion yn gymesur â swm y grant Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gaffael adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth yn yr arweiniad ymgeisio.

Pan fyddwn wedi derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol i gofnodi bod eich prosiect wedi'i gwblhau, byddwn yn cadarnhau hyn gyda chi. Gelwir hyn yn ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Wrth gwblhau rydym yn golygu:

- bod eich prosiect wedi'i orffen, a'ch bod wedi cyflawni'ch dibenion cymeradwy
- rydych wedi cydnabod eich grant fel y nodir yn ein harweiniad ar sut i gydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru
- rydych wedi gwerthuso eich prosiect a chyflwyno adroddiad cwblhau a rhestr wirio Mesur Llwyddiant
- rydych wedi cyflwyno llythyr yn cadarnhau bod y Taliadau Cynnal a Chadw wedi’u gosod o’r neilltu ar gyfer y cyfnod dair blynedd dilynol, sut y caiff yr arian hwn ei wario, ac yn cadarnhau’r swm a glustnodir ar gyfer y gwaith hwn.
- rydych chi wedi cyflwyno Cynllun Rheoli Coetir wedi'i ddiweddaru/terfynol.
- gallwch ddarparu ffotograffau digidol manylder uchel sy'n dogfennu eich prosiect
- os oedd eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, rydych wedi darparu tystysgrif cwblhau ymarferol
- os yn berthnasol, rydych wedi rhestru allbynnau digidol y prosiect a darparu cyfeiriad gwe (URL) y wefan neu wefannau lle gellir cael mynediad iddynt

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi o bryd i'w gilydd ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau gan gynnwys drwy ein harolygon cwsmeriaid.

# Gweithio gyda ni

Rydym yn eich annog i gadw mewn cysylltiad â ni, fel y gallwn glywed am y pethau rydych yn eu cyflawni drwy gydol eich prosiect.

Er nad yw bob amser yn bosibl i ni ymweld neu gwrdd â’r sefydliadau a ariannwn, gofynnir i chi ein gwahodd i ddigwyddiadau ac agoriadau prosiect allweddol a byddwn yn ceisio anfon cynrychiolydd lle bo modd.

Rydym yn deall y gall problemau neu faterion arwyddocaol godi yn ystod prosiect. Gallai hyn gynnwys unrhyw broblemau o fewn eich sefydliad, newidiadau i gostau'r prosiect, oedi difrifol, methiant i gyflawni eich dibenion cymeradwy neu gyflwyno yn erbyn ein hegwyddorion buddsoddi.

Rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl, fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol.

Disgwyliwn i chi ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am wybodaeth ac i drafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect gyda ni. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau i bolisi neu arferion grant y Loteri Genedlaethol neu Lywodraeth Cymru a allai effeithio ar eich ariannu.

Ni allwch newid dibenion cymeradwy eich prosiect heb gael ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw. Os ydych am i ni ystyried unrhyw newidiadau i’ch dibenion cymeradwy, rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig y rhesymau dros y cais ac esbonio sut y bydd yn effeithio ar:

- ansawdd eich prosiect
- cost eich prosiect
- yr amser sydd ei angen arnoch i gwblhau eich prosiect
- hyfywedd eich prosiect yn y dyfodol

Mae'n bosibl wedyn y byddwn yn ailasesu'r prosiect neu'n cymryd unrhyw gamau eraill yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol. Efallai y byddwn yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer y newid dim ond os byddwch yn cytuno i delerau ac amodau ychwanegol fel y bo angen.

Rhaid i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt gyda ni fod yn ysgrifenedig a dylid eu hadrodd hefyd yn eich diweddariadau prosiect ac/neu adroddiad cwblhau fel y bo'n berthnasol

Os oes angen i chi wneud mân newidiadau i'r gyllideb a symud arian rhwng y penawdau cost a ddarparwyd yn eich cais er mwyn cyflawni eich dibenion cymeradwy, gallwch adrodd ar hyn yn eich diweddariad prosiect. Rhaid i chi ddangos sut mae'r newidiadau hyn wedi eich helpu i gyflwyno eich Prosiect.

Rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r penawdau costau hyn ac ar gyfer unrhyw wariant mawr o'ch cyllideb wrth gefn.

Os bydd cyfanswm cost y prosiect yn cynyddu yn ystod y prosiect, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich grant. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bellach a gaiff ei hadolygu ar sail yr achos unigol.

Os ydym yn cytuno ar unrhyw newidiadau i'ch Prosiect, bydd eich swyddfa leol yn ysgrifennu atoch drwy e-bost i gadarnhau'r newidiadau a gynigiwyd. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn hyn trwy ymateb i'r e-bost o fewn y pum diwrnod gwaith.

## Diweddariadau prosiect

Wrth gytuno i delerau ac amodau eich grant, byddwn yn rhoi gwybod i chi faint o ddiweddariadau prosiect y disgwyliwn i chi eu darparu yn ystod cyfnod cyflwyno'ch prosiect.

Gan ddefnyddio'r diweddariadau hyn, byddwn yn monitro cynnydd eich prosiect i gadarnhau ei fod yn cyflwyno'r prosiect a fanylwyd yn eich cais a'r dibenion cymeradwy a nodir yn eich contract grant.

Dylai eich diweddariadau prosiect gynnwys y canlynol:

- ffotograffau yn dangos cynnydd eich prosiect (gorfodol)
- cofnod o weithgareddau neu ddigwyddiadau rydych wedi’u trefnu (gorfodol)
- disgrifiadau swydd/manylion recriwtio (gorfodol os yn berthnasol)
- adroddiadau caffael (gorfodol os yn berthnasol)
- cynnydd o ran cyrraedd cerrig milltir allweddol, er enghraifft penodi contractwyr neu staff
- materion yn codi er mwyn i ni allu ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol

Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a dewis y prosiect yr hoffech roi diweddariad ar ei gyfer. Yna bydd angen i chi ateb cyfres o gwestiynau i roi diweddariad ar sut gynnydd y mae eich prosiect yn ei wneud.

Ar ôl i chi ddarparu'r wybodaeth hon ac uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol, byddwch yn gallu cyflwyno eich diweddariad prosiect.

Byddwch hefyd yn gallu cyflwyno cais am daliad os oes angen.

## Darparu tystiolaeth o wariant

Rhaid i chi ddarparu anfonebau ar gyfer yr holl wariant dros £500. Dylai pob anfoneb a gyflwynir i ni fod ar gyfer gwaith cymwys tuag at y prosiect rydym wedi cytuno i'w ariannu. Dylent fod yn glir, yn ddarllenadwy a heb gael eu difrodi na'u hystrywio.

Dylai'r anfoneb gael ei chyfeirio at y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais am daliad.

Rhaid i anfonebau gynnwys:

- rhif anfoneb
- dyddiad y cawsant eu codi
- dyddiad y disgwylir y taliad a'r telerau talu
- sut mae'r taliad i gael ei wneud ac i bwy
- manylion cwmni, gan gynnwys enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, rhif cwmni, rhif cofrestru TAW (os yn gofrestredig ar gyfer TAW)
- disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd
- y swm gros (heb TAW), TAW os yn gofrestredig ar gyfer TAW a'r (cyfanswm) net sy'n ddyledus

Gallwch ddarparu tabl ar wahân yn manylu ar gostau o dan £500, gan gynnwys y cyfanswm hwn fel un llinell gwariant yn eich cais am daliad.

Dylid dangos tystiolaeth o gostau cyflog trwy ddarparu slipiau cyflog neu lythyr wedi'i lofnodi gan aelod o'ch sefydliad sydd ag awdurdod ariannol.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael treftadaeth, bydd angen i chi ddarparu anfoneb i ni am y pris prynu llawn.

Dylid adrodd am yr holl arian grant a wariwyd ar y prosiect yn erbyn y penawdau cost yn eich cais.

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill. Eich cyfrifoldeb chi yw ceisio cyngor priodol ynghylch adennill TAW.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

### Hyrwyddo eich grant

Ariennir y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) ar y cyd gan Raglen Coedwig Genedlaethol i Gymru Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae hyrwyddo a chydnabod Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn un o amodau'r Contract Grant. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein hisafswm gofynion cydnabyddiaeth ar ein gwefan Mae enghreifftiau o bethau llawn dychymyg y mae prosiectau wedi'u gwneud i'w gweld ar ein gwefan.

Rhaid i chi gydnabod eich grant yn gyhoeddus mor fuan ag y bydd eich prosiect yn dechrau drwy arddangos logo partneriaeth Y Loteri Genedlaethol/ Llywodraeth Cymru.

Rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn cynnwys logo partneriaeth Y Loteri Genedlaethol/ Llywodraeth Cymru ar unrhyw wybodaeth rydych yn ei chynhyrchu am eich prosiect, er enghraifft, ar wybodaeth neu ddeunyddiau ymgynghori cyhoeddus neu godi arian. Rhaid i chi gynnwys y logo hefyd ar bob dyluniad neu gynllun a gynhyrchwch, ar bob adroddiad neu arolwg arbenigol, ac ar bob dogfen dendr neu hysbyseb swydd a ariennir gan eich grant. Cyfeiriwch at ein gwefan am fwy o wybodaeth.

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'n canllawiau cydnabyddiaeth rydym yn cadw'r hawl i atal taliadau ac i ofyn am ad-daliad o ran neu'r cyfan o'ch grant.

Cysylltwch â ni os oes angen unrhyw gymorth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am gydnabod eich Grant.

Mae'n bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i'ch dyfarniad grant i'r cyfryngau lleol fel bod y cyhoedd yn gwybod ble mae eu harian yn cael ei wario. Byddwn yn cyhoeddi'r ffaith eich bod wedi cael dyfarniad grant ar ein gwefan o fewn 20 diwrnod i'ch grant gael ei ddyfarnu.

Gallwn eich cynorthwyo gydag ymholiadau am gyhoeddusrwydd a'r cyfryngau.

## Rheoli eich data

Y Gronfa Treftadaeth a Llywodraeth Cymru fydd y cyd-reolwyr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperwch mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant. Byddwn yn ei brosesu'n unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio ynom i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio hunaniaeth.

Bydd eich data personol a data sy'n gysylltiedig â'r grant yn cael eu rhannu â rheolydd data arall, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gontractwr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad

allanol o’r Rhaglen Coedwig Genedlaethol I adolygu effaith, perfformiad a chostau'r cynllun. Byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal a byddwch yn cael cyfle i optio allan.

I ddysgu mwy am sut y caiff eich data ei brosesu o dan y rhaglen grant hon, gweler ein polisi preifatrwydd.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.